Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiad o wasanaethau troseddau ieuenctid

# Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Mehefin 2022

# Cynnwys

**Foreword** ..... 3
**Ratings** ..... 5
**Executive summary** ..... 6
**Recommendations** ..... 12
**Background** ..... 13
**Contextual facts** ..... 15
**1. Organisational delivery** ..... 17
1.1. Governance and leadership ..... 20
1.2. Staff ..... 22
1.3. Partnerships and services ..... 25
1.4. Information and facilities ..... 30
Resettlement ..... 31
Diversity ..... 32
**2. Court disposals** ..... 34
**3. Out-of-court disposals** ..... 36
3.1. Assessment ..... 38
3.2. Planning ..... 39
3.3. Implementation and delivery ..... 41
3.4. Out-of-court disposal policy and provision ..... 42
**Annexe 1: Methodology** ..... 44
**Annexe 2: Inspection data** ..... 44

### Cydnabyddiaethau

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EM Pauline Burke, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chydweithwyr ar draws yr Arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a fu'n helpu i gyllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; heb eu cymorth a'u cydweithrediad nhw, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl.

### Rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw arolygydd annibynnol y gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith y gwasanaeth prawf a thoseddau ieuenctid gydag oedolion a phant.

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygiad. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael ac yn defnyddio ein data a gwybodaeth i annog gwasanaethau o safon uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn siarad yn annibynnol.

Nodwch bod yr enwau yn yr enghreifftiau o arferion drwy'r adroddiad cyfan wedi eu newid i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.

### © Hawlfraint y Goron 2022

You may re-use this information (excluding logos) free of charge in any format or medium, under the terms of the Open Government Licence. To view this licence, visit www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence or email psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

### Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter
@hmiprobation

ISBN: 978-1-914478-60-4

# Rhagair

Mae'r arolygiad hwn yn rhan o'n rhaglen o arolygiadau'r gwasanaethau troseddau ieuenctid. Rydym wedi arolygu a sgorio Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr mewn dau faes bras:
y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn sefydliadol, ac ansawdd y gwaith datrysiad y tu allan i'r llys. Rydym wedi arolygu ansawdd y gwaith a wnaed gyda phlant a ddedfrydwyd gan y llysoedd, ond oherwydd nifer isel yr achosion, nid ydym wedi rhoi gradd i'r maes hwn o waith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Yn gyffredinol, cafodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr ei raddio fel hyn: 'Angen gwelliant'.

Dechreuodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr weithredu ar 01 Ebrill 2019, yn dilyn ymwahanu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrraeth Gynnar y Bae Gorllewinol, yr oeddem wedi rhoi'r radd 'Annigonol' iddo. Er ein bod wedi sgorio Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr fel un sydd 'Angen gwelliant', nid ydym yn amcangyfrif yn rhy isel faint o waith mae wedi ei gymryd i ymdrin â rhai o'r methiannau mwyaf difrifol a welsom yn yr arolygiad blaenorol o'r Bae Gorllewinol. Mae'r arolygiad hwn yn cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud, mewn cyfnod byr o amser, i symud Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr o'r radd isaf i'r fan lle mae yn awr, a bod hynny i gael ei ganmol.

Canfu'r arolygiad wasanaeth sydd eisiau gwella. Ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, roedd asesu'r risg o niwed i eraill a chynllunio ar gyfer ymataliad plentyn yn feysydd o arferion cryf. Fodd bynnag, roedd angen gwelliannau mewn cynllunio a darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â diogelwch a lles plant. Gwelsom hefyd nad oedd y panel ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys ('y Ganolfan') yn un amlasiantaeth ac nid yw'n derbyn yr holl wybodaeth asesu'n gyson sy'n berthnasol i blant a'u teuluoedd.

Mae trefniadau'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer staffio, a'r wybodaeth a chyfleusterau'n derbyn y feirniadaeth 'Da'.
Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant ac arweiniad, a phartneriaeth a gwasanaethau wedi eu beirniadu fel rhai
sydd 'Angen gwelliant'.

Roedd yn dda gweld bod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi adolygu ei gynnydd ers yr arolygiad diwethaf ac wedi cwblhau hunanasesiad manwl a chynhwysfawr. Fodd bynnag, yn yr arolygiad gwelsom fod rhestr aelodaeth y bwrdd rheolwyr yn hir, y gall presenoldeb fod yn anghyson, ac nad oes cynrychiolydd o'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS). Mae tystiolaeth i ddangos bod y bwrdd rheolwyr yn herio asiantaethau am eu presenoldeb ar y bwrdd ac wedi uwchgyfeirio pryderon am y diffyg cynrychiolaeth o'r gwasanaethau iechyd. Mae aelodau'r bwrdd yn cydnabod bod prosesau cyfyngedig yn eu lle i'w galluogi i glywed barn plant a theuluoedd.

Yn siomedig, mae'r ddarpariaeth emosiynol, iechyd meddwl a lles ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ym Mhen-y-Bont ar Ogwr yn wael. Nid oes gwasanaeth CAMHS arbenigol i'r plant hyn, ac felly nid ywr gwasanaeth yn deall eu hanghenion iechyd meddwl penodol yn llawn. Mae'r pryderon hyn wedi cael eu huwchgyfeirio i'r bwrdd iechyd perthnasol.
Mae'r diffyg darpariaeth iechyd yn golygu nad yw plant yn derbyn y gwasanaethau arbenigol y maent eu hangen.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r tîm arweinyddiaeth wedi bod yn rhagweithiol o ran sicrhau bod gan y staff y sgiliau ar agweddau cywir i gymryd y gwasanaeth hwn yn ei flaen. Fodd

bynnag, mae materion staffio a gallu'r rheolwyr wedi effeithio ar ansawdd yr oruchwyliaeth gan reolwyr dros waith achosion.

Mae'r staff yn gwneud popeth y gallant i annog ymgysylltiad da gan blant a'u teuluoedd.

Er bod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnal cyfarfodydd ad hoc am blant unigol, gwelsom nad oes ganddo fframwaith amlasiantaeth ar gyfer ymdrin â chamfanteisio ar blant a llinellau cyffuriau posibl, a dim llwybr penodol i ymarferwyr ei ddilyn.

Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid iymyriad rhagorol a chreadigol o'r enw'r prosiect Adeiladu Sgiliau, yr ydym yn tynnu sylw ato yn yr adroddiad hwn. Roedd yn dda hefyd i weld, yng nghyfarfodydd trosglwyddo'r gwasanaeth prawf gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, bod y Gwasanaeth Prawf yn rhannu enwau pobl ifanc ar brawf, i weld a yw'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi ymwneud â nhw yn y gorffennol ai peidio. Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r Gwasanaeth Prawf i ymgysylltu'n well â'r garfan hon.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud nifer o argymhellion a fydd, gobeithio, yn cefnogi Pen-y-Bont ar Ogwr i adeiladu ar ei sylfeini cryf a sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i blant.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi

## Graddau

**Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr**

Cwblhawyd y gwaith maes ym mis Chwefror 2022 — **Sgôr 11/24**[1]

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gradd gyffredinol** | | **Angen gwella** | ● |
| **1.** | **Darpariaeth sefydliadol** | | |
| | Llywodraethiant ac arweinyddiaeth | **Angen gwella** | ● |
| 1.2 | Staff | **Da** | ● |
| 1.3 | Partneriaethau a gwasanaethau | **Angen gwella** | ● |
| | Gwybodaeth a chyfleusterau | **Da** | ● |
| **3.** | **Datrysiadau y tu allan i'r llys** | | |
| 3.1 | Asesiad | **Da** | ● |
| 3.2 | Cynllunio | **Angen gwella** | ● |
| 3.3 | Gweithredu a darparu | **Angen gwella** | ● |
| 3.4 | Darpariaeth a pholisi datrysiad y tu allan i'r llys | **Angen gwella** | ● |

[1] Rydym wedi addasu ein ffiniau sgorio arferol i roi ystyriaeth i'r ffaith nad ydym wedi sgorio gwaith parth dau (ar ôl y llys).

# Crynodeb gweithredol

Yn gyffredinol, y radd a roddir i Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr yw 'Angen gwella'. Mae'r radd hon wedi ei phenderfynu drwy arolygu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid mewn tri maes o'i waith, y cyfeirir atynt fel 'parthau'. Fel arfer rydym yn arolygu yn erbyn 12 'safon' craidd, wedi eu rhannu rhwng y parthau. Mae'r safonau wedi eu seilio ar fodelau a ffraweithiau sefydledig, sydd wedi eu gwreiddio mewn tystiolaeth, dysgu a phrofiad. Maen nhw wedi eu llunio i yrru gwelliannau yn ansawdd y gwaith gyda phlant sydd wedi troseddu.[2] Mae'r rheolau sgorio sydd wedi eu cyhoeddi'n cynhyrchu gradd gyffredinol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.[3] O ganlyniad i'r nifer isel o achosion perthnasol, nid yw'r bedair safon sy'n ymwneud â'r gwaith datrysiad llys wedi eu sgorio ar wahân yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid hwn ac rydym wedi addasu ein ffiniau sgorio arferol.[4] Mae ein canfyddiadau a'n graddau wedi eu disgrifio isod.

### Darpariaeth sefydliadol

Mae trefniadau'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer staffio, a'r wybodaeth a chyfleusterau'n derbyn y feirniadaeth 'Da'. Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant ac arweinyddiaeth, a phartneriaeth a gwasanaethau'n derbyn y radd 'Angen gwella'.

Dechreuodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid weithredu ar 01 Ebrill 2019, ar ôl ymwahaniad Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrraeth Gynnar y Bae Gorllewinol, yr oeddem ni wedi rhoi gradd 'Annigonol' iddo ar ddechrau 2019. Dechreuodd Pen-y-Bont ar Ogwr gynnal gwasanaeth cyfiawnder oedd yn sefyll ar ei ben ei hun a chrewyd bwrdd rheoli newydd. Mae strwythur llywodraethiant corfforaethol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi ei ymgorffori yng nghyfarwyddiaeth addysg a chymorth teulu'r cyngor.

Cadeirydd bwrdd rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yw prif weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr. Mae'r bwrdd yn cwrdd yn fisol, a thros y chwe mis diwethaf mae'r aelodaeth wedi newid yn sylweddol wrth i bobl symud ymlaen i rolau eraill. Mae'r rhestr aelodaeth yn hir, a gall y presenoldeb fod yn anghyson. Mae'r gwasanaethau iechyd a'r heddlu wedi newid eu cynrychiolwyr nifer o weithiau. Does dim cynrychiolydd o'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a glasoed (CAMHS), ac mae angen adolygu aelodaeth y bwrdd. Mae tystiolaeth i ddangos bod y bwrdd rheoli'n herio asiantaethau ynghylch cysondeb eu presenoldeb ar y bwrdd ac mae wedi uwchgyfeirio pryderon am y diffyg cynrychioliaeth o'r gwasanaethau iechyd. Mae aelodau'r bwrdd yn cydnabod bod prosesau cyfyngedig yn eu lle i'w galluogi i glywed barn plant a theuluoedd.

Cyflwynir dogfen y fframwaith perfformio ymhob cyfarfod o'r bwrdd rheoli. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y garfan o blant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, y dyraniad llwyth achosion a'r diweddaraf am staffio. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar wella ei waith. Mae wedi monitro ei gynnydd ers yr arolygiad diwethaf ac mae wedi cwblhau hunanasesiad manwl a chynhwysfawr.

---

[2] Gallwch ganfod safonau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yma: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/.

[3]Mae pob un o'r 12 safon wedi eu sgorio ar raddfa 0-3, lle mae 'Annigonol' = 0; 'Angen gwella' = 1; 'Da' = 2; 'Rhagorol' = 3. Mae adio'r sgorau hyn yn cynhyrchu sgôr cyfan sy'n amrywio o 0 i 36, ac mae hyn wedi ei fandio i gynhyrchu'r sgôr cyfan fel a ganlyn: 0–6 = 'Annigonol', 7–18 = 'Angen gwella', 19–30 = 'Da', 31–36 = 'Rhagorol'.

[4] Y sgorau ar gyfer y radd gyffredinol wedi eu haddasu: 'Annigonol' = 0–4, 'Angen gwella' = 5–12, 'Da' = 13–20, 'Rhagorol' = 21–24.

Ar adeg yr adolygiad, roedd gan y gwasanaeth reolwr gwasanaeth interim ac roedd un o'r ddau ymarferydd arweiniol wedi ymadael yn ddiweddar hefyd. Roedd hyn wedi cynyddu llwythi gwaith rheolwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gan achosi gostyngiad yn ansawdd yr oruchwyliaeth gan reolwyr ar yr achosion. Er bod y strwythur rheoli'n fregus ar y pryd, roedd rheolwr grŵp cymorth y teulu'n goruchwylio'r gwasanaeth. Pan fydd y swyddi wedi eu llenwi, bydd rheolwr gwasanaeth a dau ymarferydd arweiniol sydd â chyfrifoldeb rheolwr llinell. Byddent yn cael eu cefnogi gan ymarferydd rheoli risgiau arbenigol.

Mae nifer o staff wedi gadael y gwasanaeth neu wedi symud i rolau gwahanol ers yr arolygiad diwethaf ac mae'r tîm arweinyddiaeth wedi bod yn rhagweithiol o ran sicrhau bod gan y grŵp o staff y sgiliau a'r agwedd gywir i wneud y gwelliannau angenrheidiol i gymryd y gwasanaeth yn ei flaen. Ers y gwahanu, mae strwythur y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi cael ei adolygu, ac mae'r bwrdd rheolwyr corfforaethol wedi cymeradwyo recriwtiad gweithwyr cymdeithasol ychwanegol.

Rôl y prif ymarferwyr yw cefnogi'r staff gyda'u harferion. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ansawdd, materion yn ymwneud ag arferion, hyfforddiant a goruchwyliaeth. Roedd gan reolwyr achosion chwe achos yr un ar gyfartaledd ar adeg yr adolygiad. Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid swydd ymarferydd rheoli risgiau arbenigol, a grewyd i helpu'r gwasanaeth i gael rheolaeth well ar risgiau i ddiogelwch a lles plant, a'r risg o niwed y gallant ei achosi i eraill. Ar hyn o bryd mae chwe gwirfoddolwr newydd eu recriwtio, ac mae panelau gorchymyn atgyfeiriowedi digwydd wyneb yn wyneb gan gadw pellter cymdeithasol. Barn y staff oedd eu bod wedi derbyn cymorth da iawn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid drwy gydol y pandemig Covid-19.

Er bod proses gynefino gynhwysfawr ar gael i staff awdurdod lleol newydd, nid yw'r cynefino wedi bod cystal i'r staff partneriaeth sy'n ymuno â'r gwasanaeth. Roeddem wedi nodi hefyd nad oedd unrhyw broses drosglwyddo i rai staff partneriaeth, oherwydd y bylchau sylweddol mewn staffio oedd yn bodoli, pan aethent i'w swyddi newydd.

Mae'r staff i gyd wedi eu hyfforddi mewn gwell rheolaeth ar achosion, arferion wedi eu hysbysu gan drawma, a'r model adferiad o drawma. Fodd bynnag, gwelsom fod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn dibynnu ar brosesau goruchwylio arferol i gefnogi staff sy'n gweithio yn y ffordd yma. Nid yw hyn yn rhoi ystyriaeth i'r trawma dros eraill y gallai'r staff hyn ei brofi, ac mae angen i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuectid sicrhau bod staff sy'n gweithio mewn ffordd a hysbysir gan drawma yn gallu cael gafael ar gymorth a goruchwyliaeth briodol. Bydd hyn yn eu galluogi nhw'n well i wreiddio arferion wedi eu hysbysu gan drawma yn effeithiol yn eu gwaith.

Nid oes fframwaith amlasiantaeth yn ei le i ymdrin â chamfanteisio ar blant a llinellau cyffuriau posibl. Er bod cyfarfodydd ad hoc wedi eu cynnal i drafod pryderon am blant penodol, nid oes llwybr penodol i ymarferwyr ei ddilyn. Gall y staff sy'n gweithio gyda phlant sydd mewn perygl o, neu'n agored i, gamfanteisio rhywiol, eu cyfeirio nhw at raglen Dyfodol Gwell Barnardo's.

Gwelodd yr arolygwyr enghraifft o ymyrraeth ragorol a chreadigol o'r enw'r prosiect Adeiladu Sgiliau. Mae hwn nid yn unig yn rhoi sgiliau'r gweithle i blant, mae hefyd yn cryfhau eu synnwyr o hunaniaeth ac yn gwella eu hyder a'u hunan-barch.

Mae mynediad cyfyngedig gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuectid i swyddog prawf wedi ei secondio sydd, er mwyn gwneud i'r ddarpariaeth hon  weithio, yn hyblyg gyda'i ddiwrnodau penodol. Un enghraifft o arfer da mewn cyfarfodydd trosglwyddo oedd bod y Gwasanaeth Prawf yn rhannu gwybodaeth am oedolion ifanc ar brawf, i ganfod a oedd ganddyn nhw unrhyw gysylltiad blaenorol â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r wybodaeth hon yn eu helpu i ymgysylltu'n well â'r garfan hon.

Mae'r gwasanaeth yn monitro'r nifer o blant sy'n derbyn darpariaeth addysg briodol, ac mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn rhan o'r model 'tîm o amgylch yr ysgol'. Mae gan y gwasanaeth hwn hefyd swyddog hyfforddi a chyflogaeth sy'n darparu cymorth uniongyrchol i helpu plant dros 16 oed i gael gafael ar ddarpariaeth briodol.

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi secondio gweithiwr iechyd sy'n cwblhau asesiad iechyd cyffredinol i'r holl blant sy'n atebol i orchymyn llys. Mae gwasanaeth wedi'i gomisiynu i gefnogi plant sy'n camddefnyddio sylweddau.

Mae'r ddarpariaeth emosiynol, iechyd meddwl a lles i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'r rheiny sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ym Mhen-y-Bont ar Ogwr yn wael ar y cyfan. Nid oes gwasanaeth CAMHS arbenigol i'r plant hyn, ac felly nid yw'r gwasanaeth yn deall eu hanghenion iechyd meddwl penodol yn llawn. Mae hefyd restr aros o ddwy flynedd am wasanaethau niwroddatblygiadol. Dim ond am un diwrnod yr wythnos y mae'r ddarpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gael i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a chydnabyddir nad yw hwn yn ateb anghenion y plant sy'n hysbys i'r gwasanaeth. Mae'r pryderon hyn wedi cael eu huwchgyfeirio ac yn cael eu codi'n rheolaidd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi ei seilio yn y swyddfeydd dinesig ym Mhen-y-Bont ar Ogwr. Dydyn nhw ddim yn ystyriol o blant nac yn addas ar gyfer gwaith un-i-un gyda phlant sydd efallai mewn argyfwng. Ond, mae'n amgylchedd swyddfa priodol a diogel i staff weithio ynddo. Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, mewn partneriaeth â'r gwasanaeth ieuenctid, wedi llwyddo i sicrhau'r adeilad Evergreen Hall yn ddiweddar, a bydd hwn yn dod yn safle ieuenctid. Ymgynghorwyd â phlant am ei ddatblygiad, ei bwrpas a'r ffordd y mae'n cael ei addurno, ac mae gwaith adeiladu'n digwydd yno ar hyn o bryd. Mae amrywiaeth o gyfleusterau wedi eu seilio yn y gymuned ar gael i'r staff hefyd.

Gall staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid rannu gwybodaeth drwy fynd i mewn i system wybodaeth gofal plant Cymru, ac mae gan bartneriaid perthnasol eu mynediad eu hunain i system rheoli achosion y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd canllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru ar ddechau'r pandemig yn golygu bod staff yn cael eu hannog i weithio o gartref lle gallent, ac yn derbyn ffonau symudol a chyfrifiaduron gliniadur i hwyluso hynny.

Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fframwaith sicrhau ansawdd yn ei le, er nad oedd tystiolaeth i ddangos bod arolygiadau thematig ac achosion yn cael eu cwblhau ar sail amlasiantaethol ar draws y bartneriaeth. Gallai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ddangos ei fod yn adolygu achosion pan mae digwyddiadau difrifol yn codi.

Mae'r gwasanaeth wedi rhoi cynnig ar amrywiol ddulliau o gasglu adborth gan blant am eu profiadau gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol. Mae'n edrych ar hyn o bryd ar ffyrdd o gasglu adborth drwy ei wefan.

Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid bolisi arferion carcharu ac ail sefydlu drafft, sy'n cynnwys arweiniad ar ail sefydlu cadarnhaol a safonau cenedlaethol.

Mae Covid-19 wedi atal y gwasanaeth rhag gweithredu rhai o'r newidiadau a ddymunir i'r arferion gweithredol fel y cynlluniwyd. Datblygwyd cynllun 'adferiad ar ôl Covid-19' ar ddechrau'r pandemig ac roedd yn nodi sut y byddai'r gwasanaeth yn addasu ei gefnogaeth i blant a theuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys dechrau defnyddio ffyrdd rhithiol o weithio a gweithio o bell, ymweliadau stepen drws a chadw pellter cymdeithasol, a chydweithredu agosach ag asiantaethau partner.

Dyma oedd y canfyddiadau allweddol am ddarpariaeth sefydliadol:

- Mae tystiolaeth i ddangos bod y bwrdd rheoli'n herio asiantaethau am gysondeb eu presenoldeb.
- Mae'r bwrdd wedi uwchgyfeirio'r pryderon am ddiffyg cynrychiolaeth o'r gwasanaethau iechyd.
- Mae'r gwasanaeth wedi cwblhau hunanasesiad manwl a chynhwysfawr.
- Mae'r tîm arweinyddiaeth wedi bod yn rhagweithiol o ran sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r agwedd gywir i gymryd y gwasanaeth yn ei flaen.
- Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid swydd ymarferydd rheoli risgiau arbenigol.
- Mae'r staff yn gwneud popeth y gallent i annog ymgysylltiad da gan blant a'u teuluoedd.
- Mae'r Gwasanaeth Prawf yn rhannu gwybodaeth am oedolion ifanc ar gyfnod prawf, i gael gwell dealltwriaeth o unrhyw ymwneud blaenorol â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r Gwasanaeth Prawf i ymgysylltu'n well â'r garfan hon.
- Mae'r prosiect Adeiladu Sgiliau'n enghraifft o ymyrraeth ragorol a chreadigol.
- Mae'r Gwasaaneth Cyfiawnder Ieuenctid wedi cael safle ieuenctid newydd ac mae wedi ymgynghori â phlant ynghylch ei ddatblygiad.
- Mae'r gwasanaeth wedi rhoi cynnig ar nifer o ddulliau o gael adborth gan blant am eu profiadau gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.
- Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid bolisi arferion carcharu ac ail sefydlu drafft, sy'n cynnwys arweiniad ar ail sefydlu adeiladol a safonau cenedlaethol.

Ond:

- Mae gan y bwrdd rheoli restr aelodaeth hir, a gall y presenoldeb fod yn anghyson.
- Nid oes cynrychiolydd o CAMHS ar y bwrdd rheoli.
- Mae aelodau'r bwrdd yn cydnabod bod prosesau cyfyngedig ar waith i'w galluogi i glywed barn plant a theuluoedd.
- Mae ansawdd yr oruchwyliaeth gan reolwyr mewn achosion wedi gostwng oherwydd y diffyg gallu i reoli o ganlyniad i broblemau staffio.
- Nid yw'r cyfnod cynefino i staff partneriaeth sy'n ymuno â'r gwasanaeth wedi bod yn dda am nad yw'r trefniadau trosglwyddo wedi bod yn ddigonol.
- Nid oes fframwaith amlasiantaeth ar gyfer camfanteisio ar blant a llinellau cyffuriau posibl, ac nid oes llwybr penodol i ymarferwyr ei ddilyn.
- Doedd dim tystiolaeth o archwiliadau achosi a thematig yn cael eu cwblhau ar sail amlasiantaeth.
- Nid oes gwasanaeth CAMHS arbenigol i blant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ac felly nid yw'r gwasanaeth yn deall eu hanghenion iechyd meddwl penodol yn llawn.
- Mae'r ddarpariaeth emosiynol, iechyd meddwl a lles yn wael i blant sydd wedi derbyn gofal a'r rheiny sy'n adnabyddus i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuectid ym Mhen-y-Bont ar Ogwr.

**Datrysiadau llys**

Rydym wedi edrych yn fanwl ar ddwy ddedfryd gymunedol sydd wedi eu rheoli gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Rydym hefyd wedi cyfweld y ddau reolwr achos perthnasol. Aethom ati i archwilio ansawdd asesiad, cynllunio, gweithrediad a darpariaeth y gwasanaethau, a'r adolygu. Aethom ati i adolygu pob un o'r meysydd hyn mewn perthyas â gwaith a wnaed i ymdrin ag ymataliad, i gadw'r plentyn yn ddiogel, ac i gadw pobl eraill yn ddiogel.

Nid oeddem yn rhoi gradd i waith datrysiad llys ar wahân ar gyfer y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid hwn oherwydd y nifer isel o achosion, ac felly rydym wedi addasu ein ffiniau sgorio arferol.

Dyma ein canfyddiadau allweddol am ddatrysiadau llys:

- Roedd asesu ac adolygu ymataliad, diogelwch a lles plentyn, a'r risg o niwed i eraill yn feysydd ymarfer cryf.
- Roedd yr asesiadau'n dangos tystiolaeth o ddadansoddiad digonol o droseddu, ac roedd y gweithio i gynllun a darparu gwasanaethau yn arbennig o effeithiol mewn perthynas ag ymataliad y plentyn. Roedd ystyriaeth i gryfderau a deallwriaeth o lefel aeddfedrwydd y plentyn yn amlwg ar draws y gwaith.
- Roedd dosbarthiad o risg y rheolwyr achosion yn rhesymol.
- Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn ystyried amrywiaeth y plentyn, wedi ei adeiladu ar eu cryfderau, ac roedden nhw'n gymesur â'r datrysiad.
- Roedd asiantaethau eraill yn cymryd rhan mewn cadw'r plentyn yn ddiogel.
- Roedd rheolwyr achosion yn ystyried dymuniadau ac anghenion y dioddefwyr lle bo'n berthnasol, a'r risgiau ar gyfer dioddefwyr gwirioneddol a phosibl pan fo raid.
- Roedd y staff yn annog ymgysylltiad drwy gynnal perthynas gyda'r plentyn a'u rheini neu ofalwyr.
- Wrth adolygu achosion, roedd y staff yn canolbwyntio ar ffactorau amrywiaeth y plentyn, yn ystyried eu cymhelliant a'u hymgysylltiad, ac yn cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr.

Ond:

- Nid oedd rheolwyr achos yn dadansoddi'n ddigonol y rheolaethau a'r ymyriadau oedd eu hangen i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn.
- Roedd y cynllunio wrth gefn yn wan mewn perthynas â'r pryderon oedd yn dod i'r amlwg am ddiogelwch a lles y plentyn, a'u risg o niwed i eraill.
- Nid oedd y cynllunio ar gyfer diogelwch a lles plant yn ddigonol.
- Roedd diffyg cynllunio i reoli risg plant o niweidio eraill ac i sicrhau cydbwysedd rhwng y rheoliadau mewnol ac allanol er mwyn mynd i'r afael â'r risg.
- Cafodd ansawdd y gwaith o ddarparu ymyriadau ei effieithio gan or-ddibyniaeth ar ffactorau ymataliad a diffyg cynllunio wrth gefn os byddai unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r plentyn.

### Datrysiadau y tu allan i'r llys

Aethom ati i archwilio 12 achos dan reolaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid oedd wedi derbyn datrysiad y tu allan i'r llys. Dyma oedden nhw: un rhybudd amodol ieuenctid, dau rybudd ieuenctid a naw datrysiad cymunedol. Aethom ati i gyfweld y rheolwyr achos mewn 12 achos.

Aethom ati i archwilio ansawdd y gwaith o asesu, cynllunio a gweithredu a darparu gwasanaethau. Cafodd pob un o'r elfennau hyn eu harchwilio mewn perthynas â gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymataliad, er mwyn cadw'r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir i bob ffactor fod yn uwch na throthwy penodol i bob agwedd o'r oruchwyliaeth er mwyn derbyn gradd foddhaol.

Roeddem hefyd yn archwilio ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd yn eu lle ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyflweliadau.

Dyma ein prif ganfyddiadau am ddatrysiadau y tu allan i'r llys:

- Roedd asesu risg plentyn o niwed i eraill yn faes o ymarferion cryf.
- Defnyddiodd y rheolwyr achos wybodaeth gan asiantaethau eraill i helpu i hysbysu eu beirniadaeth eu hunain.
- Wrth wneud asesiadau, roedd rheolwyr achos yn ystyried cryfderau'r plentyn a'u lefel o aeddfedrwydd.
- Roedd cynllunio i gefnogi ymataliad plant yn faes ymarfer cryf.
- Roedd y staff yn deall pwysigrwydd ateb anghenion plant am addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
- Roedd rheolwyr achos wedi cynnwys plant a'u rheini neu ofalwyr yn y broses gynllunio.
- Roedd tystiolaeth o waith amlasiantaeth, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.
- Roedd rheolwyr achos yn ystyried anghenion a dymuniadau dioddefwyr.

Ond:

- Nid yw'r Ganolfan yn amlasiantaeth, ac nid yw'n derbyn yr holl wybodaeth asesu'n gyson sy'n berthnasol i blant a'u teuluoedd.
- Roedd cynllunio ar gyfer diogelwch a lles plant yn faes ymarfer gwael.
- Nid oedd rheolwyr achos yn canfod yn gyson pa blant oedd dan risg o gamfanteisio neu'n rhoi cynlluniau ar waith i reoli'r risg hwn.
- Roedd y cynllunio wrth gefn yn wael i reoli diogelwch a lles plant, a'u risg o niwedio eraill.
- Ni chafodd anghenion iechyd plant eu pennu'n gyson, a chafodd hyn effaith negyddol ar ansawdd y cynllunio a'r gwasanaethau sy'n ymwneud â'u diogelwch a'u lles.
- Darparwyd gwasanaethau annigonol i gefnogi diogelwch a lles plant.
- Efallai y byddai asiantaethau eraill wedi darparu rhai ymyriadau mewn ffordd fwy priodol, yn hytrach na chynnwys y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

## Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolwg, rydym wedi gwneud chwe argymhelliad y credwn, os cânt eu gweithredu, y byddent yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ym Mhen-y-Bont ar Ogwr. Bydd hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau troseddau ieuenctid, ac yn diogelu'r cyhoedd yn well.

**Dylai Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg :**

1. adolygu'r ddarpariaeth emosiynol, iechyd meddwl a lles i blant sydd wedi cael profiad o ofal, a'r rhai sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a sicrhau bod eu hanghenion iechyd penodol yn cael eu cyflawni.

**Dylai Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid:**

2. ystyried aelodaeth y bwrdd er mwyn sicrhau bod arno gynrychiolwyr sydd ar y lefel uwch gywir a rhoi cynllun ar waith i ddatblygu'r bwrdd fel bod ei aelodau'n deall eu rôl a'u cyfrifoldebau
3. adolygu fformat a diben y Ganolfan, a sicrhau bod ganddo'r wybodaeth a'r mewnbwn perthnasol gan yr asiantaethau angenrheidiol fel bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn ateb anghenion y plentyn.

**Dylai Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid**:

4. sicrhau bod gan y bartneriaeth fframwaith amlasiantaeth yn ei le i blant sydd mewn perygl o, neu sy'n dioddef, camfanteisio a sicrhau bod gweithdrefnau clir i ymarferwyr eu dilyn.

**Dylai rheolwr gwasanaeth y Gwasaneth Cyfiawnder Ieuenctid:**

5. wella ansawdd y cynllunio a'r gwasanaethau i reoli diogelwch a lles plant
6. adolygu prosesau sicrhau ansawdd a gwella effeithiolrwydd yr oruchwyliaeth gan reolwyr ymhob achos.


# Y Cefndir

Mae timau troseddwyr ieuenctid yn gweithio gyda phlant 10 i 18 oed sydd wedi eu dedfrydu gan lys, neu sydd wedi dod i sylw'r heddlu oherwydd eu hymddygiad troseddol, ond sydd heb gael eu cyhuddo - ac yr ymdriniwyd â nhw y tu allan i'r llys yn lle hynny. Mae Arolygiaeth Prawf EM yn archwilio'r ddau agwedd hyn o'r gwasanaethau troseddau ieuenctid.

Mae timau troseddau ieuenctid yn bartneriaethau statudol, ac maen nhw'n amlddisgyblaethol, i ymdrin ag anghenion y plentyn cyfan. Mae gofyn iddyn nhw gael staff o wasanaethau addysg a gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol, yr heddlu, y Gwasanaeth Prawf, a'r gwasanaethau iechyd lleol.[5] Mae'r rhan fwyaf o'r timau troseddau ieuenctid wedi eu seilio mewn awdurdodau lleol, ond gall hyn amrywio.

Mae gwaith timau troseddau ieuenctid yn cael eu llywodraethu a'u siapio gan amrywiaeth o ddeddfwriaeth ac arweiniad sy'n benodol berthnasol i'r sector cyfiawnder ieuenctid (fel y Safonau Cenedlaethol i Gyfiawnder Ieuenctid) neu sy'n bethnasol mewn ffordd arall ar draws y sector cyfiawnder troseddol (er enghraifft, arweiniad Trefniadau Diogelu Cyhoeddus Amlasiantaeth). Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru a Lloegr yn darparu rhywfaint o arian i dimau troseddau ieuenctid. Mae hefyd yn monitro eu perfformiad ac yn cyhoeddi canllawiau iddyn nhw am y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud.

Gwnaethom waith maes archwilio ym Mhen-y-Bont ar Ogwr dros gyfnod o wythnos, gan ddechrau ar 14 Chwefror 2022, yn edrych ar achosion oedd wedi cychwyn rhwng Hydref a Medi 2021. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr yn awdurdod lleol yn Ne Cymru gyda phoblogaeth gyfan o 147,539. Y dref fwyaf yw Pen-y-Bont ar Ogwr, ac yn dilyn hynny mae Maesteg, Pencoed, a thref glan môr Porthcawl. Ym Mhen-y Bont ar Ogwr, mae 49.6 y cant o'r boblogaeth yn ddynion, 50.4 y cant yn ferched, 1.5 y cant yn ddu, Asiaidd ac o ethnigrwydd lleiafrifol, ac 17 y cant yn siarad Cymraeg.




Pan oedd Pen-y-Bont ar Ogwr yn rhan o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrraeth Gynnar y Bae Gorllewinol, nid oedd ganddo ei ddata perfformiad ei hun gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i bobl oedd yn dod i'r gwasanaeth am y tro cyntaf, i bobl oedd yn aildroseddu ac am y cyfraddau carcharu. Ers y gwahanu, mae wedi bod yn defnyddio adroddiadau lleol i sefydlu patrwm ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r adroddiadau hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod y data am y rhai oedd yn dod i'r gwasanaeth am y tro cyntaf yn

[5] Roedd *Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998* yn nodi'r trefniadau ar gyfer timau troseddau ieuenctid a gwaith partneriaeth.

2020/2021 yn dangos gostyngiad o 35 y cant ers 2019 a chynnydd o 4.5 y cant yn y gyfradd aildroseddu flynyddol o gymharu 2017/2018 gyda 2018/2019. Nid oedd unrhyw blant yn gwneud dedfryd yn y ddalfa yn 2019/2020.

Gwnaeth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi arolygiad o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuectid ac Ymyrraeth Gynnar y Bae Gorllewinol yn Hydref 2018. Roedd Pen-y-Bont ar Ogwr yn rhan o'r gwasanaeth, ochr yn ochr â Chastell Nedd Port Talbot ac Abertawe. Cyhoeddwyd adroddiad yr arolygiad ym mis Mawrth 2019, gyda graddfa gyffredinol o 'Annigonol' a chafodd y gwasanaeth ei wahanu ym mis Ebrill 2019. Caniataodd hyn i bob maes ganolbwyntio ar ei broffiliau daearyddol a demograffig ei hun a theilwra gwasanaethau i ateb anghenion penodol plant yn ei leoliad ei hun. Ar 01 Ebrill 2019, dechreuodd Pen-y-Bont ar Ogwr gynnal gwasanaeth oedd yn sefyll ar ei ben ei hun ar gyfer cyfiawnder ieuenctid a sefydlwyd bwrdd rheoli newydd ym mis Mehefin 2019.

Cafodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr ei ailstrwythuro ym mis Medi 2019 i eistedd o fewn y portffolio 'cymorth i deuluoedd' yn y gyfarwyddiaeth addysg a chefnogi teuluoedd, er mwyn integreiddio'r gwasanaeth yn fwy effeithlon o fewn gwasanaethau ehangach Pen-y-Bont ar Ogwr.Mae hyn yn caniatáu i'r gwasanaeth gael ei alinio'n agos â thimau cymorth cynnar, gwasanaethau ar ffiniau gofal, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant. Mae'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n strategol gan reolwr y grŵp cymorth y teulu.

Mae Covid-19 wedi atal y gwasanaeth rhag gweithredu rhai o'r newidiadau a ddymunir i'r arferion gweithredol fel y cynlluniwyd. Datblygwyd cynllun 'adferiad ar ôl Covid-19' ar ddechrau'r pandemig ac roedd yn nodi sut y byddai'r gwasanaeth yn addasu ei gefnogaeth i blant a theuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys symud i ffyrdd rhithiol o weithio a gweithio o bell, ymweliadau stepen drws a gyda phellter cymdeithasol,
ymweliadau cartref un i un gyda phlant, a chydweithredad agosach ag asiantaethau partner. Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Covid-19 ar ddechrau'r pandemig yn golygu bod staff yn cael eu hannog i weithio o gartref lle bo modd, ac wrth i gyfyngiadau lacio, mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn rhagweld y bydd staff yn cydbwyso eu hamser rhwng gweithio yn y swyddfa, mewn safleoedd cymunedol, a gartref. Soniodd y staff eu bod yn teimlo wedi eu cefnogi'n dda iawn drwy gydol y pandemig Covid-19.

## Ffeithiau cyd-destunol

### Gwybodaeth am y boblogaeth[6]

| | |
|---|---|
| **115** | Cyfradd yr unigolion a ddaeth i'r gwasanaeth am y tro cyntaf, fesul 100,000 ym Mhen-y-Bont ar Ogwr[7] |
| **167** | Cyfradd yr unigolion a ddaeth i'r gwasanaeth am y tro cyntaf, fesul 100,000 yng Nghymru a Lloegr |
| **Amherthnasol** | Y gyfradd aildroseddu ym Mhen-y-Bont ar Ogwr[8] |
| **35%** | Y gyfradd aildroseddu yng Nghymru a Lloegr |
| **147,539** | Poblogaeth gyfan Pen-y-Bont ar Ogwr |
| **13,022** | Poblogaeth ieuenctid cyfan (10–17 oed) Pen-y-Bont ar Ogwr |

### Gwybodaeth am lwythi achosion[9]

| Oed | 10–14 oed | 15–17 oed |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr | **19%** | **81%** |
| Cyfartaledd Cymru | 23% | 77% |
| Cyfartaledd Cymru a Lloegr | 22% | 78% |

| Hil/ethnigrwydd | Gwyn | Du a lleiafrif ethnig | Anhysbys |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr | **100%** | **0%** | **0%** |
| Poblogaeth ieuenctid (10–17 oed) Pen-y-Bont ar Ogwr[10] | 94% | 6% | 0% |
| Cyfartaledd Cymru | 87% | 10% | 3% |
| Cyfartaledd Cymru a Lloegr | 69% | 28% | 3% |

| Rhyw | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr | **82%** | **18%** |

[6] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2021). *Amcangyfrifon poblogaeth y DU, canol 2020.*

[7] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2021). **Y rhai sy'n dod i'r gwasanaeth am y tro cyntaf, Ionawr - Rhagfyr 2020.**

[8] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021). *Ystadegau aildroseddu wedi eu profi, Ionawr i Ragfyr 2019.*

[9] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2021). *Ystadegau blynyddol cyfiawnder ieuencid: 2019 - 2020.*

[10] Darparwyd y data gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

| | | |
|---|---|---|
| Cyfartaledd Cymru | 83% | 17% |
| Cyfartaledd Cymru a Lloegr | 85% | 15% |

**Data llwyth achosion ychwanegol**[11]

| | |
|---|---|
| **25** | Y llwyth achosion cyfan ar hyn o bryd: dedfrydau cymunedol |
| **0** | Y llwyth achosion cyfan yn y ddalfa ar hyn o bryd |
| **1** | Y llwyth achosion cyfan ar drwydded ar hyn o bryd |
| **87** | Y llwyth achosion cyfan ar hyn o bryd: datrysiadau y tu allan i'r llys (yn cynnwys rhybudd amodol ieuenctid, rhybudd ieuenctid ac atebion cymunedol) |
| **23** | Y canran o'r llwyth achosion ar hyn o bryd sy'n atebol i ddatrysiad llys |
| **77** | Y canran o'r llwyth achosion ar hyn o bryd sy'n atebol i ddatrysiad y tu allan i'r llys |
| **28%** | Y canran o'r llwyth achosion ar hyn o bryd sydd â chynllun plentyn mewn angen, sydd â chynllun diogelu plentyn, neu sydd â phrofiad o ofal |
| **13.2%** | Y canran o'r llwyth achosion ar hyn o bryd sy'n 16 oed ac iau mewn uned cyfeirio disgyblion/addysg amgen/ysgol gydag amserlen lai |
| **10.2%** | Y canran o'r llwyth achosion ar hyn o bryd sy'n 17+ oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth |

[11] Darparwyd y data gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, i adlewyrchu'r llwyth achos ar adeg cyhoeddi'r arolwg.

# 1. Darpariaeth sefydliadol

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr yn rhan o gyfarwyddiaeth cymorth y teulu ac addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr, a chadeirir y bwrdd rheolwyr gan brif weithredwr y cyngor. Mae'r bwrdd yn cyfarfod bob mis a, dros y chwe mis diwethaf, mae ei aelodaeth wedi newid yn sylweddol am fod pobl wedi symud ymlaen i rolau eraill. Mae angen adolygu aelodaeth y bwrdd. Mae'r rhestr aelodaeth yn hir, a gall y presenoldeb fod yn anghyson. Mae'r heddlu a'r gwasanaethauu iechyd wedi newid eu cynrychiolwyr nifer o weithiau, ac nid oes cynrychiolydd o'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS). Mae tystioaleth i ddangos bod y bwrdd rheolwyr yn herio asiantaethau am gysondeb eu presenoldeb mewn cyfarfodydd bwrdd ac mae wedi uwchgyfeirio pryderon am ddiffyg cynrychiolaeth o'r gwasanaethau iechyd. Mae aelodau'r bwrdd yn cydnabod bod prosesau cyfyngedig yn eu lle i'w galluogi i glywed barn y plant a'r teuluoedd.

Cyflwynir dogfen y fframwaith perfformio ymhob cyfarfod o'r bwrdd rheoli. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y garfan o blant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, y dyraniad llwyth achosion a'r diweddaraf am staffio. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar wella ei waith. Mae wedi monitro ei gynnydd ers yr arolygiad diwethaf ac mae wedi cwblhau hunanasesiad manwl a chynhwysfawr.

Ar adeg yr arolygiad, roedd gan y gwasanaeth reolwr gwasanaeth interim. Roedd un o'r ddau brif ymarferydd wedi gadael yn ddiweddar. Roedd hyn wedi cynyddu llwythi gwaith rheolwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gan achosi gostyngiad yn ansawdd yr oruchwyliaeth gan reolwyr ar yr achosion. Er bod y strwythur rheolwyr yn fregus ar yr adeg hwn, roedd rheolwr grŵp cymorth y teulu'n goruchwylio'r gwasanaeth. Pan fydd y swyddi wedi eu llenwi, bydd rheolwr gwasanaeth a dau ymarferydd arweiniol sydd â chyfrifoldeb rheolwr llinell. Bydden nhw wedi eu cefnogi gan yr ymarferydd rheoli risgiau arbenigol.

Roedd nifer o staff wedi gadael y gwasanaeth neu wedi symud i rolau gwahanol ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r tîm arweinyddiaeth wedi bod yn rhagweithiol o ran sicrhau bod gan y grŵp staff y sgiliau a'r agwedd gywir i wneud y gwelliannau sydd eu hangen i gymryd y gwasanaeth yn ei flaen. Ers y gwahanu, mae strwythur y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi cael ei adolygu, ac mae'r bwrdd rheolwyr corfforaethol wedi cymeradwyo recriwtiad gweithwyr cymdeithasol ychwanegol.

Rôl y gweithredwyr arweiniol yw cefnogi staff wrth eu gwaith. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ansawdd, trin problemau gydag arferion, hyfforddiant a goruchwyliaeth. Roedd gan reolwyr achosion tua chwe achos yr un ar adeg yr arolygiad. Mae gan y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid swydd ymarferydd rheoli risgiau arbenigol, a grewyd i helpu'r gwasanaeth i reoli risgiau i ddiogelwch a lles plant yn well, a'r risg o niwed y maen nhw'n ei achosi i eraill. Ar hyn o bryd mae chwe gwirfoddolwr newydd eu recriwtio, ac mae panelau gorchymyn atgyfeirio wedi digwydd wyneb yn wyneb gyda phellter cymdeithasol. Barn y staff oedd eu bod wedi derbyn cymorth da iawn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid drwy gydol y pandemig Covid-19.

Er bod proses gynefino gynhwysfawr ar gael i staff awdurdod lleol newydd, nid yw'r cynefino wedi bod cystal i'r staff partneriaeth sy'n ymuno â'r gwasanaeth. I rai o'r staff partneriaeth, nid oedd unrhyw broses drosglwyddo oherwydd y bylchau sylweddol mewn staffio pan oedden nhw'n cychwyn eu swyddi newydd.

Mae'r staff i gyd wedi eu hyfforddi mewn rheoli achosion yn well, arferion wedi eu hysbysu gan drawma, a'r model adferiad o drawma. Fodd bynnag, gwelsom fod y Gwasanaeth

Cyfiawnder Ieuenctid yn dibynnu ar brosesau goruchwylio arferol i gefnogi staff oedd yn gweithio fel hyn. Nid oedd hyn yn rhoi ystyriaeth i'r trawma ar ran pobl eraill y gallai'r staff hyn ei brofi. Mae angen i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sicrhau bod staff sy'n gweithio mewn dull wedi ei hysbysu gan drawma yn gallu cael gafael ar gymorth a goruchwyliaeth priodol. Bydd hyn yn eu galluogi nhw'n well i wreiddio arferion wedi eu hysbysu gan drawma yn effeithiol yn eu gwaith.

Nid oes fframwaith amlasiantaeth yn ei le i ymdrin â chamfanteisio ar blant a llinellau cyffuriau. Er bod cyfarfodydd ad hoc wedi eu cynnal i drafod pryderon am blant penodol, nid oes llwybr penodol i ymarferwyr ei ddilyn. Mae staff sy'n gweithio gyda phlant sydd dan risg o, neu sy'n atebol i, gamfanteisio'n rhywiol ar blant, yn gallu eu cyfeirio nhw at raglen Gwell Dyfodol Barnardo's.

Gwelodd yr arolygwyr enghraifft o ymyrraeth ragorol a chreadigol o'r enw'r prosiect Adeiladu Sgiliau. Mae hyn nid yn unig yn rhoi sgiliau yn y gweithle i blant, ond mae hefyd yn cryfhau eu teimlad o hunaniaeth, ac yn gwella eu hyder a'u hunan-barch.

Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol fynediad cyfyngedig i swyddog prawf wedi ei secondio sydd, er mwyn gwneud i'r ddarpariaeth hon weithio, yn hyblyg gyda'u dyddiau. Un enghraifft o arfer da a welodd arolygwyr mewn cyfarfodydd trosglwyddo prawf oedd y Gwasanaeth Prawf yn rhannu gwybodaeth am bobl ifanc ar gyfnod prawf, i weld a oeddent wedi ymwneud â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn y gorffennol. Mae'r wybodaeth hon yn eu helpu i ymgysylltu'n well â'r grŵp hwn.

Mae'r gwasanaeth yn monitro'r nifer o blant sy'n derbyn darpariaeth addysg briodol, ac mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn rhan o'r model 'tîm o amgylch yr ysgol'. Mae gan y gwasanaeth hwn hefyd swyddog hyfforddi a chyflogaeth sy'n darparu cymorth uniongyrchol i helpu plant dros 16 oed i gael gafael ar ddarpariaeth briodol.

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi secondio gweithiwr iechyd sy'n cwblhau asesiad iechyd cyffredinol i'r holl blant sy'n atebol i orchymyn llys. Mae gwasanaeth wedi'i gomisiynu i gefnogi plant sy'n camddefnyddio sylweddau.

Mae'r ddarpariaeth emosiynol, iechyd meddwl a lles i blant sydd â phrofiad o ofal a'r rhai sy'n adnabyddus i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ym Mhen-y-Bont ar Ogwr yn gyffredinol wael. Nid oes gwasanaeth CAMHS arbenigol i'r plant hyn, felly nid yw'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn deall eu hanghenion iechyd meddwl penodol yn llawn. Mae rhestr aros o ddwy flynedd am wasanaethau niwroddatblygiadol. Mae darpariaeth iaith, lleferydd a chyfathrebu ar gael i'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid un diwrnod yr wythnos yn unig, a chydnabyddir nad yw hyn yn ateb anghenion plant sy'n adnabyddus i'r gwasanaeth. Mae'r pryderon hyn wedi cael eu huwchgyfeirio ac yn cael eu codi'n rheolaidd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi ei seilio yn y swyddfeydd dinesig ym Mhen-y-Bont ar Ogwr. Dydyn nhw ddim yn ystyriol o blant nac yn addas ar gyfer gwaith un-i-un gyda phlant sydd efallai mewn argyfwng. Ond, mae'n amgylchedd swyddfa priodol a diogel i staff weithio ynddo. Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, mewn partneriaeth â'r gwasanaeth ieuenctid, wedi llwyddo i sicrhau'r adeilad Evergreen Hall yn ddiweddar, a bydd hwn yn dod yn safle ieuenctid. Ymgynghorwyd â phlant ynghylch ei ddatblygiad, ei bwrpas a'r ffordd y bydd yn cael ei addurno, ac mae'r gwaith adeiladu'n digwydd ar hyn o bryd. Mae amrywiaeth o gyfleusterau wedi eu seilio yn y gymuned ar gael i'r staff hefyd.

Gall staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid rannu gwybodaeth drwy fynd i mewn i system wybodaeth gofal plant Cymru, ac mae gan bartneriaid perthnasol eu mynediad eu hunain i system rheoli achosion y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd canllawiau Covid-19

Llywodraeth Cymru ar ddechau'r pandemig yn golygu bod staff yn cael eu hannog i weithio o gartref lle gallent, ac yn derbyn ffonau symudol a chyfrifiaduron gliniadur i hwyluso hynny.

Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fframwaith sicrhau ansawdd yn ei le, er nad oedd tystiolaeth i ddangos bod arolygiadau thematig ac achosion yn cael eu cwblhau ar sail amlasiantaethol ar draws y bartneriaeth. Gallai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ddangos ei fod yn adolygu achosion pan mae digwyddiadau difrifol yn codi.

Mae'r gwasanaeth wedi rhoi cynnig ar amrywiol ddulliau o gasglu adborth gan blant am eu profiadau gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol. Mae'n edrych ar hyn o bryd ar ffyrdd o gasglu adborth drwy ei wefan.

Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid bolisi arferion carcharu ac ail sefydlu drafft, sy'n cynnwys arweiniad ar ail sefydlu cadarnhaol a safonau cenedlaethol.

**Cryfderau**

- Mae tystiolaeth i ddangos bod y bwrdd rheoli'n herio asiantaethau am gysondeb eu presenoldeb.
- Mae'r bwrdd wedi uwchgyfeirio pryderon am y diffyg cynrychiolaeth o'r gwasanaethau iechyd ar y bwrdd.
- Mae'r gwasanaeth wedi cwblhau hunanasesiad manwl a chynhwysfawr.
- Mae'r tîm arweinyddiaeth wedi bod yn rhagweithiol o ran sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r agwedd gywir i ddwyn y gwasanaeth yn ei flaen.
- Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid swydd ymarferydd rheoli risgiau arbenigol.
- Mae'r staff yn gwneud popeth a allant i annog ymgysylltiad da gan blant a'u teuluoedd.
- Mae'r Gwasanaeth Prawf yn rhannu gwybodaeth am bobl ifanc ar brawf, i gael gwell dealltwriaeth o unrhyw gyfranogaeth flaenorol gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r Gwasanaeth Prawf i ymgysylltu'n well â'r garfan hon.
- Mae enghraifft o ymyrraeth ragorol a chreadigol o'r enw'r prosiect Adeiladu Sgiliau.
- Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi cael safle newydd sy'n addas i blant ac ymgynghorwyd â phlant am ei ddatblygiad.
- Mae'r gwasanaeth wedi rhoi cynnig ar amrywiol ddulliau o gasglu adborth gan blant am eu profiadau gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.
- Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid bolisi arferion carcharu ac ail sefydlu drafft, sy'n cynnwys arweiniad ar ail sefydlu adeiladol a safonau cenedlaethol.

**Meysydd i'w gwella**

- Mae gan y bwrdd rheoli restr aelodaeth hir, a gall y presenoldeb fod yn anghyson.
- Nid oes cynrychiolydd o CAMHS ar y bwrdd rheoli.
- Mae aelodau'r bwrdd yn cydnabod bod prosesau cyfyngedig yn eu lle i'w galluogi i glywed barn plant a theuluoedd.

- Mae ansawdd yr oruchwyliaeth gan reolwyr ar achosion wedi gostwng am nad oes gan reolwyr y gallu o ganlyniad i broblemau staffio.
- Nid yw'r cynefino i staff partneriaethau sy'n ymuno â'r gwasanaeth wedi bod yn dda oherwydd diffyg trefniadau trosglwyddo.
- Nid oes fframwaith amlasiantaeth ar gyfer camfanteisio ar blant a llinellau cyffuriau posibl, ac nid oes llwybr penodol i ymarfewyr ei ddilyn.
- Nid oedd tystialeth o arolygon thematig ac achosion yn cael eu cwblhau ar sail amlasiantaeth
- Nid oes gwasanaeth CAMHS arbenigol i blant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ac felly nid yw'r gwasanaeth yn deall eu hanghenion iechyd meddwl penodol yn llawn.
- Mae'r ddarpariaeth emosiynol, iechyd meddwl a lles yn wael i blant sydd â phrofiad o ofal a'r rheiny sy'n adnabyddus i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ym Mhen-y-Bont ar Ogwr.

Mae sefydliadau sydd wedi eu harwain a'u rheoli'n dda yn fwy tebygol o gyflawni eu hamcanion. Rydym yn arolygu yn erbyn pedwar safon.

| **1.1. Llywodraethiant ac arweinyddiaeth** | |
|---|---|
| Mae llywodraethiant ac arweinyddiaeth y tîm troseddau ieuenctid yn cefnogi ac yn hyrwyddo darpariaeth gwasanaeth ymatebol o ansawdd uchel sydd wedi ei bersonoli i bob plentyn. | Angen gwella |

**Data allweddol**

| | |
|---|---|
| Y gwariant cyfan yn y flwyddyn ariannol flaenorol | £941,662 |
| Y gyllideb gyfan a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol | £880,281 |

Wrth wneud beirniadaeth am lywodraethiant ac arweinyddiaeth, rydym yn rhoi ystyriaeth i'r atebion i'r tri chwestiwn dilynol:

**A oes gweledigaeth a strategaeth lleol effeithiol ar gyfer darparu gwasanaeth ymatebol o ansawdd da sydd wedi ei bersonoli i bob plentyn?**

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr yn rhan o gyfarwyddiaeth cefnogi teuluoedd ac addysgCyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr. Cadeirir y bwrdd rheoli gan y prif weithredwr sydd wedi bod yn y rôl hon ers iddi gychwyn ym mis Ebrill 2019. Mae'r bwrdd yn cynnwys yr holl bartneriaid statudol, yn ogystal â rhai partneriaid anstatudol, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r llys a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Mae cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid yn ei le, sy'n ymdrin â 2021/2022.

Mae aelodau bwrdd newydd yn derbyn pecyn cynefino, sy'n cynnwys cylchoedd gwaith a fideos sy'n dangos profiad plant ar wahanol gamau o'r system cyfiawnder ieuenctid o ataliaeth i warchodaeth. Cytunwyd ar ddatganiad o weledigaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn un o ddiwrnodau datblygu'r gwasanaeth. Cynhelir y diwrnodau hyn yn rheolaidd ac maen nhw'n cynnwys aleodau'r bwrdd a staff y gwasanaeth cyfiawnder

ieuenctid fel ei gilydd Maen nhw'nhelpu i sefydlu cysylltiadau gwaith rhwng y staff, ac yn cefnogi aelodau'r bwrdd drwy gynyddu eu gwybodaeth o waith y gwasanaeth.

Mae'r bwrdd yn cyfarfod bob mis. Dros y chwe mis diwethaf, mae'r aelodaeth wedi newid yn sylweddol wrth i bobl symud ymlaen i rolau eraill. Mae'r rhestr aelodaeth yn hir, a gall y presenoldeb fod yn anghyson. Mae'r gwasanaethau iechyd a'r heddlu wedi newid eu cynrychiolwyr nifer o weithiau, ac nid oes cynrychiolydd o CAMHS. Mae aelodau'r bwrdd yn cydnabod bod prosesau cyfyngedig yn eu lle i'w galluogi i glywed barn plant a'u teuluoedd.

Canfu'r arolygiad bod angen adolygu aelodaeth y bwrdd, er mwyn sicrhau bod cynrychiolwyr arno sydd o lefel priodol o uchel. Yna, gellir cael ffocws ar ddatblygu'r bwrdd fel bod ei aelodau'n deall eu rôl a'u cyfrifoldebau, ac yn cynyddu eu gwybodaeth o waith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

### A yw'r trefniadau partneriaeth yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth effiethiol yn weithredol?

Darperir adroddiad fframwaith perfformiad ymhob cyfarfod bwrdd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y garfan o blant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, dyraniad y llwyth achosion a diweddariad staffio. Cyflwynwyd adroddiadau i'r bwrdd hefyd am ddiogelu, llety a diffyg cymesuredd. Mewn cyfarfod diweddar, cyflwynodd y gwasanaeth ei strategaeth cymhwysedd digidol, llythrennedd a rhifedd ddrafft.

Mae'r bwrdd rheoli'n parhau i herio asiantaethau am gysondeb eu cynrychiolaeth a'u presenoldeb ar y bwrdd. Mae'r bwrdd, drwy ei gadeirydd, wedi uwchgyfeirio pryderon am y diffyg gwasanaethau iechyd a ddarperir i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, sydd wedi peri adolygiad o'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd yn cae eu cynrychioli ar y bwrdd rheoli.

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar wella ei waith. Mae wedi monitro ei gynnydd ers yr arolwg diwethaf gan ddefnyddio cynllun gweithredu gwella perfformiad, sy'n cael ei adolygu a'i gyflwyno i'r bwrdd yn rheolaidd. Ym mis Rhagfyr 2021, cwblhaodd y gwasanaeth hunanasesiad manwl a chynhwysfawr. Roedd hwn yn adeiladu ar y fformat a fabwysiadwyd gan y gyfarwyddiaeth cymorth i deuluoedd ac addysg ym mis Medi 2017, ac roedd wedi ei deilwra i adlewyrchu canllawiau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Roedd yr hunanasesiad hwn yn rhoi trosolwg beirniadol o'r cynnydd a wnaed ers yr arolygiad diwethaf ac mae wedi cael ei ddefnyddio i yrru meysydd blaenoriaeth yn eu blaenau ar gyfer gwella.

Mae materion sy'n effeithio ar droseddau ieuenctid yn amlwg ar agendau grwpiau strategol allweddol eraill ym Mhen-y-Bont ar Ogwr. Mae'r rhain yn cynnwys y bwrdd rheolwyr corfforaethol, y bwrdd cymorth a diogelu cynnar, y bwrdd partneriaeth a diogelwch cymunedol a bwrdd rheoli strategol Trefniadau Amlasiantaeth Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA).

### A yw arweinwyr y tîm troseddau ieuenctid yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol?

Ar adeg yr arolwg, roedd gan y gwasanaeth reolwr gwasanaeth dros dro yn ei le ac roedd yn recriwtio i'r swydd. Roedd un o'r ddau ymarferydd arweiniol wedi gadael y gwasanaeth yn ddiweddar hefyd ac roedd y broses recriwtio'n mynd yn ei flaen. Pan fydd y swyddi wedi eu llenwi bydd rheolwr gwasanaeth a dau ymarferydd arweiniol gyda chyfrifoldeb rheolwr llinell Bydd y rhain wedi eu cefnogi gan yr ymarferydd rheoli risgiau arbenigol.

Mae'r swyddi gwag wedi gostwng gallu rheolwyr, ac mae hyn wedi achosi gostyngiad yn ansawdd y trosolwg gan reolwyr dros achosion. Ar gyfer yr achosion a arolygwyd, roedd goruchwyliaeth rheolwyr yn ateb anghenion yr achos mewn dim ond hanner y datrysiadau y tu allan i'r llys.

Mae'r rheolwr gwasanaeth ac un o'r ymarferwyr arweiniol yn mynychu'r bwrdd rheoli, ac mae aelodau eraill o staff yn mynychu er mwyn cyflwyno am ddarnau penodol o waith. Rhennir adroddiad y fframwaith perfformiad a chofnodion cyfarfod y bwrdd gyda'r staff fel eu bod yn gwybod beth sy'n cael ei drafod. Mae adborth gan y bwrdd yn rhan o'r agenda ar gyfer rheolaeth a chyfarfodydd tîm.

Cwblhawyd arolwg y staff arolygu gan 24 o bobl. Ar gyfer y ddau gwestiwn a ganlyn, ymatebodd 21 o bobl ac roedd 16 o'r 21 o aelodau staff yn deall y weledigaeth a chenhadaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn "weddol dda"; roedd 11 allan o 21 yn "weddol ymwybodol" o weithgareddau'r bwrdd rheoli ac yn deall ei rôl, a doedd pump allan o 21 "ddim yn ymwybodol iawn". Roedd y mwyafrif o staff a gwblhaodd yr arolwg yn teimlo eu bod wedu derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am faterion strategol.

Mae Covid-19 wedi atal y gwasanaeth rhag gweithredu rhai o'r newidiadau a ddymunir i'r arferion gweithredol fel y cynlluniwyd. Datblygwyd cynllun 'adferiad ar ôl Covid-19' ar ddechrau'r pandemig ac roedd yn nodi sut y byddai'r gwasanaeth yn addasu ei gefnogaeth i blant a theuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys dechrau defnyddio ffyrdd rhithiol o weithio a gweithio o bell, ymweliadau stepen drws a chadw pellter cymdeithasol, a chydweithredu agosach ag asiantaethau partner. Roedd nifer o heriau yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud ag ymgysylltiad gan blant. Ar y dechrau, ymatebodd y plant yn dda i dduliau o bell; ond, dros amser, roedden nhw'n ei gael yn anodd cynnal eu brwdfrydedd ac yn dechrau ymddieithrio. Achosodd hyn i'r gwasanaeth ddatblygu prosesau asesu risgiau a defnyddio offer diogelu personol i ymweld â phlant gartref. Roedd y gwasanaeth hefyd yn cefnogi darpariaeth prydau ysgol am ddim i blant cymwys bob dydd. Roedd hyn o gymorth i adeiladu cysylltiadau gwaith rhwng y gwasanaeth, ysgolion a gofal cymdeithasol plant. Roedd y gwasanaeth hefyd yn cefnogi ysgolion oedd â phlant yn defnyddio darpariaeth ar y safle yn ystod cyfnodau clo.

## 1.2. Staff

| | |
|---|---|
| Mae staff o fewn y tîm troseddau ieuenctid wedi eu grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol o ansawdd uchel ac wedi ei bersonoli i bob plentyn. | Da |

**Data staff allweddol**[12]

| | |
|---|---|
| Cyfrif pennau'r staff cyfan (cyfatebol ag amser llawn (FTE)) | 20.6 |
| Cyfanswm y cyfrif pennau, rheolwyr achos cymwysedig (FTE)[13] | 7.2 |
| Y gyfradd o swyddi gwag (cyfanswm y swyddi heb eu llenwi fel canran o gyfrifiad pennau'r staff cyfan) | 9% |
| Llwyth achosion cyfartalog, rheolwyr achos (cyfatebol ag amser llawn)[14] | 6 |
| Salwch diwrnodau gwaith blynyddol ar gyfartaledd (y staff i gyd) | 379 |

[12] Darparwyd y data gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac mae'n adlewyrchu'r staffio ar adeg cyhoeddi'r arolwg.

[13] Y rheolwyr achos cymwysedig yw'r rheiny sydd â chymhwyster perthnasol mewn gwaith cymdeithasol, cyfiawnder ieuenctid neu  brawf.

[14] Darparwyd y data gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, wedi ei seilio ar y staffio a'r llwyth gwaith ar adeg cyhoeddi'r arolwg.

| | |
|---|---|
| Athreuliad staff (canran yr holl staff a adawodd mewn cyfnod o 12 mis) | 1.4% |

Wrth wneud beirniadaeth a staffio, rydym yn cymryd i ystyriaeth yr atebion i'r pum cwestiwn a ganlyn:

**A yw'r lefelau staffio a llwyth gwaith yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth ymatebol o ansawdd uchel wedi ei bersonoli i bob plentyn?**

Ers yr arolygiad diwethaf, mae nifer o staff wedi gadael y gwasanaeth neu wedi symud i rolau gwahanol. Mae'r tîm arweinyddiaeth wedi bod yn rhagweithiol o ran sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r agwedd gywir i wneud y gwelliannau angenrheidiol i gymryd y gwasanaeth yn ei flaen. Canfu'r arolygwyr bod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ers gwahanu'r gwasanaeth Bae Gorllewinol blaenorol, wedi canolbwyntio ar fuddsoddi yn ei staff a chyflawni eu hangenion hyfforddi a datblygiad.

Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid 29 o staff, sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ar gyfer y gwasanaeth. Mae strwythur y tîm yn eistedd o dan reolwr y grŵp cymorth i deuluoedd, gyda rheolwr gwasanaeth dros dro, dau ymarferydd arweiniol ac ymarferydd rheoli risgiau arbennig. Cafodd strwythur y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ei adolygu yn 2019 ac, wrth gydnabod y buddsoddiad oedd yn angenrheidiol er mwyn gwneud cynnydd, cymeradwyodd y bwrdd rheolwyr corfforaethol benodi gweithwyr cymdeithasol ychwanegol. Gwnaed hyn i sicrhau bod gan y staff y sgiliau priodol i ateb anghenion cymhleth y plant sy'n adnabyddus i'r gwasanaeth. Dros y 12 mis diwethaf, collwyd lefel uchel o ddyddiau oherwydd salwch staff; ond mae hyn yn ganlyniad i nifer fach o staff sydd wedi cael salwch tymor hir, ac mae'n cael ei reoli'n briodol.

Rôl y prif ymarferwyr yw cefnogi'r staff gyda'u harferion. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ansawdd, problemau gydag arferion, hyfforddiant, goruchwyliaeth a, lle bo angen, cymorth gydag achosion cymhleth. Maen nhw'n gyfrifol am ddyrannu gwaith, ac wrth wneud hynny maen nhw'n ystyried niferoedd y llwythi achosion a sgiliau a gwybodaeth penodol y rheolwr achosion. Maen nhw'n ymgynghori â staff cyn rhoi achos iddyn nhw, ac yn cymryd i ystyriaeth pa staff sydd wedi ymwneud â'r teulu yn y gorffennol, felly mae cysondeb rheolwyr achos yn derbyn blaenoriaeth.

Roedd gan reolwyr achos tua chwe achos yr un ar adeg yr arolygiad, a dywedodd 17 allan o 19 aelod o staff yn yr arolwg staff eu bod yn gallu ymdopi gyda'u llwyth gwath neu lwyth achosion.

Roedd tystiolaeth yn yr achosion a arolygwyd bod staff yn gwneud popeth a allant i annog ymgysylltiad a chydymffurfiad da gan y plentyn. Mae staff a rheolwyr fel ei gilydd yn canolbwyntio ar y plant ac yn adnabod y plant sydd dan eu gofal yn dda.

**A yw sgiliau staff y timau troseddau ieuenctid yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth ymatebol o ansawdd da wedi ei bersonoli i'r plant i gyd?**

Mae gan y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid swydd ymarferydd rheoli risgiau arbenigol, a grewyd ym mis Tachwedd 2020 i helpu'r gwasanaeth i wella ei brosesau rheoli risgiau. Mae daliwr y swydd yn rheoli achosion mwy cymhleth, ac yn hwyluso fforymau arferion gwaith cymdeithasol, a chyfarfodydd diogelwch a lles. Maen nhw hefyd yn helpu'r prif ymarferwyr i wella arferion cyffredinol ar draws y gwasanaeth.

Mae gan weithwyr cymdeithasol y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid gyfrifoldeb achos am yr holl waith statudol yn y gwasanaeth. Maen nhw'n cwblhau adroddiadau'r gorchymyn cyfeirio a'r adroddiadau cyn-dedfrydu i'r llys, ac unrhyw asesiadau carcharu ac ail sefydlu neu adroddiadau parôl. Mae gan gydlynwyr ymyrraeth y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid

gyfrifoldeb achos am ataliad ac am achosion y Ganolfan,ac maen nhw'n gweithio'n uniongyrchol â phlant. Maen nhw hefyd yn helpu'r gwasanaeth i ddatblygu amrywiaeth o wahanol raglenni a gweithgareddau, yn cynnwys gweithio gydag asiantaethau partner.

Mae gan y gwasanaeth gydlynydd llys a mechnïaeth sy'n cefnogi plant a'u teuluoedd pan fyddant yn ymddangos yn y llys. Yn ogystal, maen nhw'n cynnig pecynnau o gymorth ac ymyriadau i'r plant hynny sy'n atebol i ofynion mechnïaeth. Mae adborth gan lys ynadon Caerdydd yn dweud bod swyddog llys y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid bob amser wedi paratoi ar gyfer pob achos ac yn gyfforddus yn ateb y llys gydag unrhyw gwestiynau sy'n codi. Bydd y swyddog llys yn tynnu sylw at achosion a ddylai gael eu gwyro o'r llys a'u cyfeirio yn ôl i'r Ganolfan i dderbyn ystyriaeth ar gyfer datrysiad y tu alllan i'r llys. Mae'r adroddiadau cyn-dedfrydu a roddir i'r llys yn fanwl iawn ac yn cynnwys argymhellion priodol.

Mae gan y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid banel a chydlynydd gwirfoddol sy'n gyfrifol am redeg y ganolfan a phanelau gorchymyn atgyfeirio. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo arferion cyfiawnder adferol. Ar hyn o bryd mae gan y gwasanaeth chwe gwirfoddolwr newydd eu penodi. Mae'n hysbysebu am wirfoddolwyr gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gwefan y cyngor a sefydliadau gwirfoddol. Mae'r gwirfoddolwyr i gyd yn fenywod ar hyn o bryd, er bod yr ystod oed yn amrywiol, ac mae'r gwasanaeth wrthi'n recriwtio mwy o ddynion i wirfoddoli ac yn annog ymgeiswyr o wahanol gefndiroedd ethnig.

Dywedodd y gwirfoddolwyr bod rhwydwaith cymorth da yn ei le, a bod y cydlynydd yn rhoi diweddariadau rheolaidd iddyn nhw ar yr e-bost a thrwy'r grŵp WhatsApp. Gofynnir iddynt roi eu barn am feysydd o'r arferion ac maen nhw'n teimlo'n rhan o'r tîm. Mae'r hyfforddiant i wirfoddolwyr yn gynhwysfawr. Mae'n cynnwys hyfforddiant mewn diogelu a sesiynau ar strwythur y tîm, materion cyfiawnder ieuentid cyffredinol, llinellau cyffuriau a sesiwn ar ddulliau wedi eu hysbysu gan drawma o weithio gyda phlant. Mae'r gwirfoddolwyr hefyd wedi cwblhau cwrs hyfforddi pedwar diwrnod ar weithio mewn dull adferol. Maen nhw'n teimlo bod yr holl hyfforddiant hyd yn hyn wedi ateb eu hanghenion. Gallan nhw fynychu panelau gorchymyn atgyfeirio a mynd i'r Ganolfan, a'r bwriad yw ei bod yn fentoriaid i blant hefyd, a fydd yn gofyn hyfforddiant ychwanegol.

Mae panelau gorchymyn atgyfeirio bob amser yn cynnwys dau wirfoddolwr, ac mae dadansoddiad i wirfoddolwyr cyn ac ar ôl y panel. Yn ystod Covid-19, mae panelau wedi bod yn rhai wyneb yn wyneb a gyda phellter cymdeithasol. Anfonir gwybodaeth ddigonedd o amser o flaen llaw ac mae'r gwirfoddolwyr yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth ddefnyddiol o'r plentyn a'u profiadau. Yn bennaf, nid yw dioddefwyr yn mynychu panelau, ond mae gwybodaeth yn cael ei chynnwys yn adroddiad y panel, sy'n cynrychioli eu barn.

### A yw'r trosolwg o waith yn cefnogi datblygiad proffesiynol a darpariaeth ansawdd uchel?

Mae cyfarfodydd tîm wythnosol i'r staff i gyd, ac mae gweithwyr cymdeithasol y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn cwrdd mewn fforymau gwaith cymdeithasol misol sy'n cael eu cynnal i gefnogi datblygiad arferion.

Mae'r staff yn derbyn goruchwyliaeth fisol reolaidd, sy'n cynnwys y llwyth achosion (os yw hynny'n briodol), llwyth gwaith, unrhyw heriau i iechyd emosiynol a meddwl person, ansawdd y gwaith a meysydd i'w gwella a datblygiad proffesiynol. Dywedodd y staff nad oes angen iddyn nhw aros am oruchwyliaeth os oes ganddyn nhw broblem, am fod rhywun wrth law bob amser i'w helpu a'u cefnogi nhw, p'un a yw hynny'n rheolwyr neu gydweithwyr. Cwblheir gwerthusiadau blynyddol hefyd, ac mae gweithdrefnau yn eu lle i ymdrin â gallu'r staff. Mae staff sydd wedi eu secondio'n cael eu goruchwylio gan eu hasiantaeth gartref, sy'n cwblhau gwerthusiad, a gan eu rheolwr llinell yn y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid.

Er bod proses gynefino gynhwysfawr yn ei lle ar gyfer staff awdurdod lleol newydd, nid yw'r cynefino i staff partneriaeth sy'n ymuno â'r gwasanaeth wedi bod cystal. I rai staff partneriaeth, nid oedd proses drosglwyddo oherwydd y bylchau sylweddol mewn staffio pan oedden nhw'n dechrau yn eu swyddi newydd.

### A yw'r trefniadau ar gyfer dysgu a datblygiad yn gynhwysfawr ac ymatebol?

Mae cynllun hyfforddi yn ei le i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer 2022 ac mae'r gwasanaeth yn cadw cofnodion hyfforddi cynhwysfawr. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo wedi eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr e-ddysgu gorfodol yn ei le ar gyfer hyfforddiant diogelu oedolion a phlant, a thrais yn erbyn menywod. Mae hyfforddiant gorfodol i reolwyr yn y cyngor yn cynnwys goruchwyliaeth, rheoli absenoldebau a chael sgyrsiau anodd.

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnig ystod o gyfleoedd dysgu i staff, ac mae'r cyrsiau a gwlbhawyd yn ddiweddar wedi cynnwys AssetPlus a hyfforddiant mewn gwrthsefyll heb drais. Mae rhai aelodau o staff ar fin cwblhau hyfforddiant mewn Asesiad, Ymyriad a Symud Ymlaen (AIM) 3, i weithio gyda phlant sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gallu dilyn y rhaglen Blwyddyn wedi Asesu a'i Gefnogi mewn Cyflogaeth (parhau addysg a dysgu proffesiynol), sy'n cael ei hwyluso gan dîm dysgu a datblygiad y cyngor.

Mae'r staff i gyd wedi cael eu hyfforddi mewn gwell rheolaeth achos, arfer wedi'i hysbysu gan drawma a'r model adferiad o drawma. Gall y staff fanteisio ar weithdai wythnosol i ymwreiddio eu dull arferion wedi eu hysbysu gan drawma o weithio gyda phlant. Ond, gwelsom fod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn dibynnu ar y prosesau goruchwyliaeth arferol i gefnogi staff sy'n gweithio yn y ffordd yma. Nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth y trawma ar ran pobl eraill y gall y staff hyn ei brofi ac mae angen i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sicrhau bod staff sy'n gweithio mewn dull wedi ei hysbysu gan drawma yn cael mynediad at gymorth a goruchwyliaeth briodol, fel dull clinigol ac wedi ei strwythuro o roi cymorth goruchwyliol.

### A yw rheolwyr yn talu digon o sylw i ymgysylltiad staff?

Mae staff yn derbyn e-byst canmoliaeth a gwerthfawrogiad gan uwch arweinwyr a thrwy oruchwyliaeth gyda'u rheolwyr llinell. Mae cyfarfodydd tîm hefyd yn annog staff i rannu newyddion cadarnhaol a chydnabod arferion da. Er nad oes gan y bwrdd rheoli broses gydnabyddiaeth neu wobrwyo yn ei lle, pan mae staff yn cyflwyno astudiaethau achos mewn cyfarfodydd bwrdd, cânt eu canmol am eu gwaith.

Dywedodd y staff eu bod yn teimlo bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr a'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid wedi rhoi cefnogaeth dda iawn iddyn nhw drwy gydol y pandemig Covid-19.Cafwyd pwyslais ar les staff, ac mae cwnsela ar gael. Cynigiwyd y cyfle i staff gael gofod swyddfa hefyd am un diwrnod yr wythnos, gyda'r nod o roi'r cyfle i bobl ddod at ei gilydd. Mae ymarferwyr arweiniol yn parhau i gynnig sesiynau gwirio a goruchwyliaeth rheolaidd i staff i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi.

| **1.3 Partneriaethau a gwasanaethau** | |
|---|---|
| Mae amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau o safon uchel yn eu lle, gan alluogi darpariaeth ymatebol wedi ei phersonoli i bob plentyn. | Angen gwella |

**Nodweddion y llwyth achosion**

| | |
|---|---|
| Y canran o'r llwyth achosion cyfredol sydd â phroblemau emosiynol, lles ac iechyd meddwl | 38% |
| Y canran o'r llwyth achosion cyfredol sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau | 58% |
| Y canran o'r llwyth achosion cyfredol sydd â datganiad o anghenion dysgu ychwanegol neu gynllun dysgu unigol | 32% |

Wrth roi barn am bartneriaethau a gwasanaethau, rydym yn rhoi ystyriaeth i'r tri chwestiwn a ganlyn:

**A oes dadansoddiad digon cynhwysfawr a diweddar o broffil plant, a ddefnyddir gan y Tîm Troseddau Ieuenctid i ddarparu gwasanaethau wedi eu targedu'n dda?**

Pan oedd Pen-y-Bont ar Ogwr yn rhan o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrraeth Gynnar y Bae Gorllewinol, nid oedd ganddo ei ddata perfformiad Pen-y-Bont ar Ogwr ei hun am bobl oedd yn dod i'r gwasanaeth am y tro cyntaf a'r cyfraddau aildroseddu a charcharu. Ers yr ymwahaniad, mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi defnyddio adroddiadau lleol i sefydlu patrwm ar gyfer y gwasanaeth ac yn darparu adroddiad crynhoi data i'r bwrdd rheoli sy'n dadansoddi perfformiad y gwasanaeth.

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid hefyd yn darparu adroddiad fframwaith perfformiad gyda manylion achosion, yn cynnwys oed, rhywedd ac ethnigrwydd y plant, y troseddau a gyflawnwyd ganddynt a'r lefelau o risg. Mae'n edrych a ydyn nhw wedi cael profiad o ofal, statws eu lle byw a'r math o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth maen nhw'n mynd i mewn iddynt. Mae hefyd yn cynnwys teclyn dyrannu llwyth achosion, sy'n nodi'r achosion y mae ymarferwyr arbenigol yn gweithio arnynt ochr yn ochr â rheolwyr achos. Mae'n amlinellu'r sefyllfa staffio presennol, o ran swyddi gwag a salwch, ac mae ganddo adran gyffredinol ar gyfer diweddariadau mewn ymarferion.

Mae'r adroddiadau perfformaid a gyflwynwyd i'r bwrdd rheoli wedi arwain at geisiadau penodol am adroddiadau gyda thema lle'r oedd angen mwy o wybodaeth. Mae'r rhain wedi cynnwys adroddiad sy'n edrych yn benodol ar ferched sy'n adnabyddus i'r gwasanaeth, adroddiad dadansoddi aildroseddu, adroddiad ar hygyrchedd safleoedd y mae staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a phlant yn gallu eu ddefnyddio ac adroddiad ar anghymesuredd cyffredinol, er, yn siomedig, nid oedd hyn yn cynnwys unrhyw weithredoedd neu argymhellion.

Mae'r fframwaith perfformiad hefyd yn cynnwys diweddariad am y gwaith sicrhau ansawdd sy'n cael ei wneud gan y gwasanaeth, ac mae hyn yn cael ei gyflwyno i'r bwrdd ddwywaith y flwyddyn. Mae hyn wedi arwain at archwiliadau gyda thema. Mae'r rhain wedi cynnwys ansawdd y gwaith gyda dioddefwyr, ac adolygiad o blant sydd â phrofiad o ofal a alluogodd i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid weithio gyda chartrefi preswyl plant i'w helpu i ddatblygu eu dulliau adferol.

**A yw partneriaeth y tîm troseddwyr ieuenctid yn darparu'r maint, yr ystod a'r ansawdd o ran gwasanaethau ac ymyriadau sy'n ofynnol i ateb anghenion y plant i gyd?**

Mae ymarferydd rheoli risgiau arbenigol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cadeirio cyfarfodydd rheoli risgiau'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid ar gyfer pob achos lle mae diogelwch a lles y plentyn, neu ei risg o niweidio eraill wedi eu hasesu ar lefel o risg canolig neu uchel.

I blant sydd dan risg o, neu'n atebol i, gamfanteisio rhywiol ar blant, gall y staff eu cyfeirio at raglen Gwell Dyfodol Barnardo's. Byddan nhw'n cwblhau asesiadau, yn darparu ymyriaethau ac yn cynnig ymgynghoriad i reolwyr achos. Gellir gwneud cyfeiriadau hefyd i'r ganolfan camfanteisio rhywiol amlasiantaeth neu weithwyr eiriolaeth Barnardo's yn y ganolfan ddiogelu amlasiantaeth.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw fframwaith amlasiantaeth yn ei le i blant sydd mewn perygl o, neu'n atebol i, gamfanteisio ar blant a'u cyfranogaeth bosibl mewn llinellau cyffuriau. Yn absennol i raddau mawr mae agweddau sy'n defnyddio diogelu cyd-destunol, gan gynnwys mapio plant mewn cymunedau, edrych ar feysydd posibl lle gallai camfanteisio fod yn digwydd, ystyried y math o gamfanteisio a chynllunio sut i'w atal.Er bod cyfarfodydd ad hoc wedi eu cynnal i drafod pryderon am blant penodol, nid oes llwybr penodol i ymarferwyr ei ddilyn.

Mae plant sydd â phrofiad o ofal wedi eu gor-gynrychioli yn y garfan Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn monitro hyn ac wedi cyflwyno'r prosiect Adfer, sydd wedi ei ddisgrifio'n fanylach isod. Mae hefyd wedi dadansoddi'r ffigurau ac wedi edrych ar y troseddau penodol yr oedd y plant hyn yn cymryd rhan ynddynt, i sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu troseddoli'n ddianghenraid.

Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gyfeirlyfr o wasanaethau y gall y staff gael gafael arnynt. Darperir ymyriadau mewn naill ai lleoliad grŵp bach neu ar sail un i un. Maen nhw'n cynnwys y prosiect Phoenix, sy'n gwrs pum niwrnod a redir gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru o orsaf tân gweithredol. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i'r plant brofi sut beth yw gweithio mewn gwasanaeth argyfwng ac yn rhan o hyn maen nhw'n gwisgo'r wisg. Pan gwblheir y prosiect, gall y plant dderbyn y cymhwyster lefel un mewn sgiliau brwydro tân cymunedol ac ieuenctid. Mae hefyd grŵp cerddoriaeth sy'n cynnwys sgiliau byw yn ei raglen, a Brave Space, sy'n becyn cymorth troseddau cyllell y gall staff ei ddefnyddio.

Mae rhaglen i ferched wedi ei llunio mewn ymgynghoriad â merched sy'n adnabyddus i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'n mynd i ddechrau ym mis Mawrth 2022, a bydd yn cynnwys sesiynau ar ddatblygu sgiliau byw, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Gellir darparu hwn ar sail un-i-un neu mewn grŵp.

Gwelodd arolygwyr enghraifft o ymyriad rhagorol a chreadigol sydd wedi cael ei ddatblygu dros nifer o flynyddoedd. Mae'r prosiect Adeiladu Sgiliau'n rhoi sgiliau i blant, nid yn unig yn y gweithle ond hefyd o ran datblygu eu synnwyr o hunaniaeth ac adeiladu hyder a hunan-barch. Gellir gwneud atgyfeiriadau i'r plentyn gael dapariaeth addysg amgen, i gwblhau eu horiau adferiad neu i adeiladu eu portffolio drwy ddatblygu eu profiad gwaith. Mae'r plant yn dylunio ac yn adeiladu offer a mannau chwarae pren wedi eu teilwra'n arbennig i ysgolion a grwpiau cymunedol. Maen nhw'n cael profiad o, a gwybodaeth am gynllunio prosiectau, sgiliau adeiladu, cyllidebu, iechyd a diogelwch, adfywiad y gymuned a phrofiad gwaith. Mae'r rhaglen yn cael ei gwerthuso, ac mae adborth yn cael ei gasglu gan blant a'r ysgolion a'r grwpiau cymunedol perthnasol.

Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol swyddog dioddefwyr, sydd â chysylltiad â chronfa ddata'r heddlu. Mae'r unigolyn hwn yn cysylltu â'r dioddefwyr ac, os yw'r dioddefwr eisiau cymryd rhan, mae'n archwilio eu hanghenion unigol, ochr yn ochr â'u cyfeirio at asiantaethau eraill i dderbyn cymorth, fel y bo'n angenrheidiol. Mae'r swyddog dioddefwyr yn esbonio prosesau adfer i'r dioddefwr, sy'n cynnwys llythyr ymddiheuro, cyfryngu, a chyfarfod wyneb yn wyneb neu adferiad, ac mae mewn cysyltliad agos â'r gwasanaeth Cymorth Dioddefwyr. Maen nhw hefyd yn cynghori rheolwyr achos am ddymuniadau'r dioddefwr mewn perthynas ag amodau'r drwydded pan fo'n briodol. Er gwaethaf defnyddio gwahanol ddulliau o gael adborth gan ddioddefwyr, yn cynnwys holiaduron, e-byst ac yn awr yn anfon dolen SurveyMonkey, mae'r ymateb yn wae. Mae adborth llafar yn cael ei

gasglu a'i recordio, ond mae hyn yn anoddach ei fesur. Edrychir ar y ffordd fwyaf effeithiol o gasglu adborth dioddefwyr ar sail lleol a rhanbarthol.

Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gydlynydd adfer a gwaith di-dâl sy'n chwilio am brosiectau o fewn y gymuned. Maen nhw'n rhoi'r dioddefwr ar y blaen ac yn sicrhau bod prosiectau wedi eu seilio ar sgiliau ac o fudd i'r gymuned. Yn bennaf, maen nhw'n gweithio gyda phlant ar sail un i un, fel bod y berthynas yn gallu datblygu. Mae'r cydlynydd yn cwrdd â'r plentyn i drafod eu diddordebau a'u sgiliau, yn ogystal ag unrhyw anghenion o ran amrywiaeth, fel eu bod yn gallu eu cyfateb â phrosiect priodol. Mae'r prosiectau'n cynnwys peintio canolfan adnoddau i blant, gweithio gydag ysgol i lunio cerdyn Nadolig, gwneud bagiau rhodd a rhoi taflenni gwybodaeth at ei gilydd i esbonio beth sy'n digwydd ar ôl y llys. Yn ystod y pandemig, arhosodd y prosiectau adfer yn fwy lleol i'r fan lle'r oedd y plant yn byw ac roeddent yn cynnwys prosiectau awyr agored ac yn gweithio gydag ysgolion i greu lle awyr agored mwy defnyddiol ar eu tiroedd.

**A yw'r trefniadau gyda phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill wedi eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel?**

Mae polisi ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a gofal cymdeithasol plant. Gwahoddir staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i'r holl gyfarfodydd am blant mewn angen, rheiny sydd ar gynllun diogelu plant a'r rheiny sydd â phrofiad o ofal, ac mae nhw'n mynychu'r rhain. Cynhelir gweithdai datblygu ymarferion yn rheolaidd ar gyfer y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a thimau ffiniau gofal, i rannu gwybodaeth a phrofiad ac i wella sgiliau pobl.

Mae swyddog prawf ar secondiad ar gael i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid am ddiwrnod a hanner bob wythnos. I wneud i'r ddarpariaeth gyfyngedig hon weithio, mae'r swyddog yn hyblyg gyda'u dyddiau ac yn sicrhau eu bod ar gael ar gyfer ymgynghoriadau achos a chyfarfodydd am blant dan risg uchel. Mae cyfarfodydd trosglwyddo misol yn digwydd, lle mae plant dros 16 oed yn cael eu trafod i weld a fyddent, ar yr adeg priodol, yn symud i'r Gwasanaeth Prawf. Gwelodd yr arolygwyr dystiolaeth o arfer da, am fod y cyfarfod hefyd yn cynnwys y Gwasanaeth Prawf yn rhannu gwybodaeth am blant dros 18 oed sydd wedi dod yn hysbys iddyn nhw, i wirio unrhyw ymwneud blaenorol gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r wybodaeth hon yn eu helpu nhw i ymgysylltu'n well gyda'r plant sydd ar brawf.

Mae'r swyddog heddlu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gwneud gwiriad dyddiol o gronfa ddata'r heddlu, i weld a oes unrhyw blant wedi bod yn nalfa'r heddlu, naill ai drwy arestiad neu bresenoldeb gwirfoddol. Maen nhw hefyd yn tracio ac yn monitro plant at ddibenion deallusrwydd drwy nodi gwybodaeth o'r system heddlu a'i gyfateb gyda phant sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

Mae'r gwasanaeth yn monitro'r nifer o blant sy'n derbyn y ddarpariaeth addysgol briodol ac yn mynd i'r panel 'mynediad i addysg'. Mae gweithiwr yn y tîm ymgysylltiad addysg yn gweithio'n benodol gyda phlant sy'n adnabyddus i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r gwasanaeth yn rhan o'r model 'tîm o amgylch yr ysgol', sy'n rhoi cyfle i bob ysgol gyfun ym Mhen-y-Bont ar Ogwr ddod â phartneriaid at ei gilydd i drafod plant y mae pryderon ynghylch eu haddysg. Rhennir gwybodaeth a chynhelir trafodaethau i ganfod pa wasanaethau cymorth sy'n ofynnol i helpu ac atal problemau rhag cynyddu.

Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid swyddog hyfforddiant a chyflogaeth sy'n darparu cymorth uniongyrchol i helpu plant dros 16 oed i gael gafael ar ddarpariaeth briodol. Mae'r unigolyn yn gweithio'n agos â Gyrfa Cymru, Coleg Pen-y-Bont ar Ogwr a

phartneriaid eraill i ganfod cyfleoedd addas i blant. Y swyddog hefyd yw'r unigolyn arweiniol ar gyfer y prosiect Adeiladu Sgiliau.

Mae gan y gwasanaeth weithiwr iechyd wedi ei secondio sy'n cwblhau asesiad iechyd cyffredinol i'r holl blant sy'n atebol i orchymyn llys. Gall staff drafod plant sydd ar ddatrysiad y tu allan i'r llys os oes ganddyn nhw unrhyw bryderon a bydd asesiad llawn yn cael ei gwblhau os oes angen. Mae'r asesiad yn cynnwys gwirio bod gan y plentyn feddyg teulu a'u bod wedi cael eu himiwneiddiadau, gwirio a oes unrhyw broblemau deintyddol a darparu unrhyw wiriadau iechyd cyhoeddus eraill fel y bo'r gofyn.

Mae gwasanaeth wedi ei gomisiynu i gefnogi plant sydd â phroblemau gyda chamddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn cynnwys gweithiwr sy'n derbyn atgyfeiriadau gan reolwyr achos ac yn darparu ymyriadau ar sail un-i-un yn ogystal â mewn gwaith grŵp.

Mae'r plant i gyd yn cael eu sgrinio i weld beth yw eu hanghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu gan staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn rhan o'u hasesiad AssetPlus. Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod y staff i gyd wedi eu hyfforddi i ganfod yr anghenion hyn. Os oes angen asesiad pellach neu ymyriad, gellir cyfeirio'r plant at therapydd iaith a lleferydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Fodd bynnag, am fod y therapydd wedi ei ddyrannu i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid am un diwrnod yr wythnos yn unig, maen nhw'n gyfyngedig iawn o ran y gwasanaethau y gallant eu darparu. Felly, bydden nhw'n rhoi cyngor ac arweiniad i reolwyr achos ac yn darparu hyfforddiant i staff pan fydd amser yn caniatáu.

Nid oes gweithiwr wedi ei secondio o CAMHS at ddefnydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid os oes ganddyn nhw brderon am iechyd meddwl plentyn. O safbwynt CAMHS, nid oes gweithiwr arbenigol wedi ei gysylltu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sy'n gallu deall anghenion iechyd meddwl penodol plant sy'n adnabyddus i'r system cyfiawnder ieuenctid.

Mae'r ddarpariaeth emosiynol, iechyd meddwl a lles i blant sydd â phrofiad o ofal a'r rhai sy'n adnabyddus i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ym Mhen-y-Bont ar Ogwr yn gyffredinol wael. Fel y dywedwyd uchod, nid oes gwasanaeth CAMHS arbenigol i'r plant hyn ac felly nid yw'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn deall eu hanghenion iechyd meddwl penodol yn llawn. Mae rhestr aros o ddwy flynedd am wasanaethau niwroddatblygiadol. Mae'r ddarpariaeth iaith, lleferydd a chyfathrebu i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar gael am ddim ond un diwrnod yr wythnos, a chydnabyddir nad yw hyn yn ateb anghenion y plant sy'n adnabyddus i'r gwasanaeth. Mae'r pryderon hyn wedi cael eu huwchgyfeirio gan fwrdd rheolwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuendtic a chânt eu codi'n rheolaidd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

### Cyfranogaeth plant a'u rhieni neu ofalwyr

Mae'r gwasanaeth wedi rhoi cynnig ar amrywiol ddulliau o gael adborth gan blant am eu profiadau gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Ar y dechrau, roedd hyn yn cynnwys anfon holiaduron a dadansoddi'r hunanasesiad gan AssetPlus. Yn fwy diweddar, mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi bod yn defnyddio gweithwyr cyfranogi i gysylltu â phlant pan maen nhw wedi gorffen eu cyfranogaeth gyda'r gwasanaeth, ac mae hyn wedi rhoi adborth iddyn nhw am y cymorth yr oedd plant ei angen yn ystod y pandemig. Mae rhai plant wedi cyfrannu at fideo am waith y gwasanaeth, ac mae sylwadau'r plant wedi hysbysu cynllun adeilad Evergreeen Hall. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn edrych ar ffyrdd o gasglu adborth drwy ei wefan.

Yn rhan o'r broses arolygu, gwahoddir plant i gyfranogi mewn arolwg testun, a chynigir cyfle i'r rhai yr arolygir eu hachosion i siarad ag arolygydd er mwyn rhoi eu hadborth.

Siaradodd yr arolygwyr â dau o blant ac un rhiant. Roedden nhw oll yn teimlo bod gan eu gweithwyr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid y sgiliau cywir i wneud y gwaith a'u bod wedi gallu cael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth cywir i'w helpu i gadw allan o drafferth.

Pan ofynnwyd iddyn nhw enwi un peth yr oedden nhw'n ei hoffi orau am y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, dywedodd un plentyn:

> *"Ar ddiwedd y diwrnod, maen nhw [y rheolwr achos] yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud, men nhw'n fy helpu i, maen nhw'n fy nabod i, maen nhw'n gwybod sut rydw i'n gweithio, ac maen nhw'n fy annog i wneud gwahaniaeth".*

Pan ofynnwyd a oedd gan y Gweithiwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid y sgiliau cywir, dywedodd un rhiant:

> *"Dydy'r rheolwr achos ddim yn beirniadu. Maen nhw'n dod ar ymweliadau cartref. Gallaf ofyn cwestiynau. Maen nhw wedi bod yn achubiaeth i mi dros y misoedd diweddar. Gallaf eu ffonio, efallai i agor fy nghalon a rhannu beth sydd ar fy meddwl. Mae'n gwneud i mi deimlo'n ysgafnach fel rhiant. Mae'n ddefnyddiol bob amser. Mae wedi bod yn brofiad gwych".*

| **1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau** | ● |
|---|---|
| Mae gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael ac mae cyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi dull ymatebol o ansawdd uchel wedi ei bersonoli i'r plant i gyd. | Da |

Wrth roi beirniadaeth am wybodaeth a chyfleusterau, rydym yn ystyried yr atebion i'r pedwar cwestiwn dilynol:

**A yw'r polisïau a'r arweiniad sydd yn eu lle i alluogi i staff ddarparu gwasanaeth o safon uchel, yn ateb anghenion y plant i gyd?**

Mae amrywiaeth lawn o bolisïau a chanllawiau yn eu lle, sy'n hygyrch i staff. Rhoddir y manylion diweddaraf i bobl am unrhyw newidiadau drwy e-bost a thrafodaethau mewn cyfarfodydd tîm. Mae protocolau rhannu gwybodaeth yn eu lle ac mae dealltwriaeth ohonynt ar draws y bartneriaeth Mae proses uwchgyfeirio i'r holl bartneriaid i'w helpu i herio asiantaeth arall, ac mae'r staff yn teimlo bod rheolwyr yn eu cefnogi i leisio pryderon gydag asiantaethau eraill.

**A yw amgylchedd(au) darparu'r tîm troseddau ieuenctid yn ateb anghenion y plant i gyd ac yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel?**

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi ei seilio yn y swyddfeydd dinesig ym Mhen-y-Bont ar Ogwr nad ydynt yn addas i blant ac sy'n anaddas ar gyfer gwaith un-i-un gyda phlant sydd efallai mewn argyfwng. Ond, mae'n amgylchedd swyddfa priodol a diogel i staff weithio ynddo. Wrth i'r cyfyngiadau Covid-19 lacio, mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn rhagweld y bydd staff yn cydbwyso eu hamser rhwng gweithio yn y swyddfa, mewn safleoedd cymunedol a gartref.

Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, mewn partneriaeth â'r gwasanaeth ieuenctid, wedi sicrhau adeilad Evergreen Hall, a fydd yn dod yn safle ieuenctid.Ymgynghorwyd â phlant ynghylch ei ddatblygiad, ei bwrpas a'r ffordd y bydd yn cael ei addurno, ac mae'r gwaith adeiladu'n digwydd ar hyn o bryd. Bydd ymgynghoriad yn

digwydd gyda'r plant unwaith eto i ail enwi'r safle unwaith mae'r gwaith adeiladu wedi ei gwblhau.

Gall staff hefyd gael gafael ar amrywiaeth o gyfleusterau sydd wedi eu seilio yn y gymuned mewn ardaloedd eraill, yn cynnwys hen lys yng ngogledd y fwrdeistref, gorsafoedd tân ac ysgolion, a byddent yn ymweld â phlant yn eu cartrefi.

**A yw'r systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn galluogi i staff ddarparu gwasanaeth o safon uchel, gan ateb anghenion y plant i gyd?**

Gall staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid rannu gwybodaeth drwy fynd i mewn i system wybodaeth gofal plant Cymru, ac mae gan bartneriaid perthnasol eu mynediad eu hunain i system rheoli achosion y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae system rheoli achosion y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenectid yn galluogi i'r gwasanaeth gynhyrchu data am berfformiad.

O ganlyniad i ganllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â  Covid-19, cafodd staff eu hannog i weithio o gartref lle gallent, a rhoddwyd ffonau symudol a chyrifiaduron gliniadur iddyn nhw i hwyluso hynny. Roedd y staff yn greadigol wrth weithio gyda phlant yn ystod y pandemig, ac yn defnyddio apiau ar-lein, apiau cyfryngau cymdethasol ac MS Teams ar gyfer cyfarfodydd.

**A yw dadansoddiad, tystiolaeth a dysgu'n cael eu defnyddio'n effeithiol i yrru gwelliant?**

Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fframwaith sicrhau ansawdd yn ei le. Mae hyn yn cynnwys adolygiad gan yr ymarferwyr arweiniol a'r ymarferydd rheoli risgiau arbenigol o ansawdd yr ymyriadau a'r diogelu ar gyfer holl adroddiadau ac asesiadau AssetPlus. Mae pwyntiau dysgu unigol yn cael eu trafod gyda gweithwyr achos drwy oruchwyliaeth, ac mae themâu cyffredinol yn cael eu codi mewn cyfarfodydd tîm.

Mae adroddiad fframwaith perfformiad y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys diweddariad am y gwaith sicrhau ansawdd sy'n cael ei wneud o fewn y gwasanaeth, ac mae hwn yn cael ei gyflwyno i'r bwrdd ddwywaith y flwyddyn. Mae hyn wedi arwain at archwiliadau gyda thema, sydd wedi cynnwys ansawdd y gwaith gyda dioddefwyr, yn ogystal ag adolygiad o blant sydd wedi cael phrofiad o ofal a arweiniodd at waith gyda chartrefi gofal i ddatblygu eu dulliau adferol.

Roedd adolygiad ail droseddu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ddull amlasiantaeth rhwng y gwasanaethau plant, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ac roedd wedi hysbysu arferion ar gyfer gweithio gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal. Yn fwy cyffredinol, fodd bynnag, roedd tystiolaeth gyfyngedig o archwiliadau achos a thematig yn cael eu cwblhau ar sail amlasiantaeth ar draws y bartneriaeth. Gallai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ddangos ei fod yn adolygu achosion pan mae digwyddiadau difrifol yn digwydd.

## Ail sefydlu

**Darpariaeth a pholisi ail sefydlu**

Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid bolisi arferion carcharu ac ailsefydlu drafft. Mae hyn yn cynnwys arweiniad ar safonau ailsefydlu a chenedlaethol adeiladol, ac mae'n nodi prosesau asesu, cynllunio ac adolygu yn ogystal â chyflwyno'r angen am banelau ailsefydlu amlasiantaeth. Ond, nid yw'n nodi'r prosesau y dylai rheolwyr achos eu dilyn wrth ail alw plant i'r ystad diogel pan mae nhw ar drwydded.

Datblygodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid y polisi drwy edrych ar ganllawiau cenedlaethol a safonau cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuectid ac ystyried glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfiawnder ieuenctid a'r dull plentyn yn gyntaf. Mae'r polisi drafft wedi ei anfon at y tîm i gael adborth; yna bydd yn cael ei drafod gydag asiantaethau partner cyn mynd i'r bwrdd rheoli i gael ei lofnodi.

Ers 2019, mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi cael tri o blant yn y ddalfa ac un plentyn ar remánd. Dyrennir achosion ailsefydlu i weithwyr cymdeithasol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Bydd gweithiwr ymyriad a'r swyddog hyfforddiant a chyflogaeth yn cael eu dyrannu hefyd i helpu i gefnogi'r gweithiwr cymdeithasol. Pan mae plant yn y ddalfa, mae staff yn cadw cysylltiadau da gyda theuluoedd a byddent yn cymryd rhieni a gofalwyr i ymweliadau, fel bod teuluoedd yn gallu cadw mewn cysylltiad. Pan fo'n addas, bydd staff o asiantaethau partneriaeth yn gweld plant mewn sefydliadau diogel ac yn cysylltu â'u cyfoedion yn y sefydliad. Adroddodd Staff bod cael gafael ar lety addas yn gallu bod yn heriol pan mae plant yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa. Ni chafwyd unrhyw hyfforddiant penodol mewn gwaith ail sefydlu, er bod staff yn teimlo bod hyffoddiant mewn arferion wedi eu hysbysu gan drawma yn arbennig o berthnasol i achosion ail sefydlu.

Pan mae achosion gwarchodaeth yn y gwasanaeth, dywedodd y staff bod y cyfathrebu gyda'r ystad diogel yn dda. Dyrennir gweithiwr allweddol i bob plentyn ac mae sgyrsiau a chyfnweid gwybodaeth yn digwydd yn rheolaidd rhwng y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol a'r sefydliad.

Mae MHP Parc o fewn ffiniau Pen-y-Bont ar Ogwr, ac mae swydd gwaith cymdeithasol benodedig yno. Ond, mae'r swydd gweithiwr cymdeithasol hon wedi bod yn wag am 12 mis oherwydd cymhlethdod y trefniadau ariannu. Mae'r unigolyn yn y rôl hon yn chwarae rhan bwysig mewn adolygu materion diogelu'n annibynnol. Dylid nodi, fodd bynnag, nad bai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr yw'r bwlch hwn mewn darpariaeth; yn hytrach, cyfrifoldeb Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi Cymru ydyw.

## Amrywiaeth

Trwy ein safonau cyfan, rydym yn disgwyl dull ymatebol ac wedi ei bersonoli i'r plant i gyd, sy'n cynnwys rhoi ystyriaeth i'w hamrywiaeth a'u nodweddion gwarchodedig. Gallai'r ffactorau hyn ddlyanwadu ar ein beirniadaethau ar gyfer safonau penodol. Yma, rydym yn cyflwyno crynodeb cyffredinol o'r agwedd tuag at amrywiaeth a welsom yn y tîm troseddau ieuenctid.

Yn ôl yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, mae 69 y cant o'i weithlu'n ferched. Yn y boblogaeth leol, mae 1.5 y cant yn ddu, Asiaidd ac o leiafrif ethnig, ond mae tri y cant o grŵp staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn dod o'r cefndir hwn. Roedd gan dri y cant o'r gweithlu anabledd wedi'i ddatgan. Roedd siaradwyr Cymraeg yn cyfrif am 17 y cant o'r boblogaeth a chynigir cefnogaeth gan staff sy'n siarad Cymraeg i'r holl blant drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr.

Ar adeg yr arolwg, roedd 18 y cant o lwyth achosion y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ferched, roedd gan 32 y cant anabledd dysgu, roedd gan 38 anghenion emosiynol, iechyd meddwl a lles, ac roedd gan 58 y cant broblemau gyda chamddefnyddio sylweddau. Roedd

un y cant o'r llwyth achosion yn eu hystyried eu hunain yn ddu, Asiaidd neu o leiafrif ethnig, a soniodd y staff eu bod weithiau'n teimlo nad oedden nhw'n gallu nodi ac ymdrin ag anghenion unigol y plant hyn. Bydd y gwasanaeth yn derbyn hyfforddiant mewn rhagfarn ddiarwybod yn y dyfodol agos, ond mae angen i arweinwyr ystyried sut i gynyddu dealltwriaeth y staff am y ffordd y gall ethnigrwydd plentyn effeithio ar ei gyfranogaeth gyda'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

Yn ôl y wybodaeth a roddwyd gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, roedd gan 31 o'r 98 o blant sy'n adnabyddus i'r gwasanaeth ddatganiad o anghenion dysgu ychwanegol neu gynlluniau dysgu unigol. Canfu'r arolwg bod y plant hyn yn derbyn cymorth drwy gyfrwng y model 'tîm o gylch yr ysgol' a'r 'panel mynediad i addysg, ' lle'r oedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi ei gynrychioli.

Rhwng misoedd Ebrill a Rhagfyr 2021, roedd profiad o ofal gan 17 (26 y cant) o'r 66 o blant a gychwynnodd yr ymyriadau Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, o'i gymharu ag 15 (18 y cant) o'r 83 ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn dangos bod nifer y plant oedd â phrofiad o ofal yn uwch yn 2021 er bod y llwyth achosion yn llai. Mewn ymateb i hyn, mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno'r prosiect Adfer, sy'n gweithio gyda chartrefi gofal awdurdod lleol, ac wedi cynllunio estyniad i ddarparwyr preifat a gofalwyr maeth, i ddefnyddio dulliau adferol wrth weithio gyda phlant. Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn hyrwyddo'r sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwr' tri diwrnod gydag aelodau uwch o'r staff yn y cartrefi gofal preswyl, fel eu bod yn gallu hwyluso cynadleddau adferol eu hunain wrth symud ymlaen. Mae swyddog heddlu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid hefyd yn ymweld â'r cartefi preswyl i helpu i adeiladu perthnasoedd gyda'r staff a'r plant.

Roedd y dadansoddiad yn dangos hefyd mai'r ymraniad rhwng y rhywiau ar gyfer plant oedd â phrofiad o ofal yn ystod 2021 oedd naw bachgen ac wyth merch, o'i gymharu ag 11 bachgen a phedair merch yn 2020, gan ddangos bod y gymhareb o ferched i fechgyn o ran y plant sydd â phrofiad o ofal wedi cynyddu. Pan edrychodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar hyn, gwelodd bod y cynnydd wedi digwydd o ganlyniad i ddwy drosedd wahanol a ddigwyddodd oedd wedi cynnwys nifer o ferched ac a oedd wedi golygu eu bod wedi dod yn adnabyddus i'r gwasanaeth.

## 2. Datrysiadau llys

Edrychom yn fanwl ar ddwy ddedfryd gymunedol a reolwyd gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Hefyd, gwnaethom ddau gyfweliad gyda'r rheolwyr achos perthnasol. Aethom ati i archwilio ansawdd asesiad, cynllunio, gweithrediad a darpariaeth y gwasanaethau, a'r adolygu. Cafodd pob un o'r elfennau hyn eu hadolygu mewn perthynas â gwaith a wnaed i ydmrin ag ymataliad, i gadw'r plentyn yn ddiogel ac i gadw pobl eraill yn ddiogel.

O ganlyniad i'r nifer isel o achosion perthnasol, nid oeddem wedi sgorio gwaith datrysiad llys ar wahân yn yr arolwg hwn, ac rydym wedi addasu ein ffiniau sgorio arferol.

Roedd asesu ac adolygu ymataliad plant, eu diogelwch a'u lles, a'u risg o niweidio eraill yn feysydd o arferion cryf. Mewn asesiadau, roedd dadansoddiad da o droseddu. Canolbwyntiodd y rheolwr achos ar gryfderau'r plentyn ac roedd yn deall eu lefel o aeddfedrwydd. Fodd bynnag, nid oedd digon o ddadansoddiad o'r rheoliadau a'r ymyriadau oedd eu hangen i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn. Roedd yr arolygwyr yn barnu bod dosbarthiad y rheolwyr achos o risg yn rhesymol.

Hefyd, barnwyd bod gwasanaethau cynllunio a darparu oedd yn ymwneud ag ataliad plentyn yn feysydd o arferion cryf. Roedd y cynllunio'n rhoi ystyriaeth i gryfderau ac aeddfedrwydd y plentyn. Fodd bynnag, roedd y cynllunio wrth gefn yn wan mewn perthynas â phryderon cynyddol amlwg am ddiogelwch a lles plant a'u risg o niwed i eraill. Roedd diffyg cynllunio hefyd wrth ystyried risg y plentyn o niweidio eraill a sicrhau cydbwysedd rhwng rheoliadau mewnol ac allanol i'w helpu i ymdrin â'r risg hwn.

Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn rhoi ystyriaeth i amrywiaeth y plentyn, yn adeiladu ar eu cryfderau ac yn gymesur â'r datrysiad. Roedd staff yn annog ymgysylltiad drwy gynnal perthynas â'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr, ac roedd asiantaethau eraill yn cymryd rhan mewn cadw'r plentyn yn ddiogel. Fodd bynnag, roedd ansawdd y gwaith o ddarparu ymyriadau wedi ei effeithio gan
or-ddibyniaeth ar ffactorau ymataliad eraill a diffyg cynllunio wrth gefn os byddai unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r plentyn.

Roedd rheolwyr achos yn ystyried dymuniadau ac anghenion y dioddefwyr lle bo'n berthnasol, ac yn ystyried y risg i ddioddefwyr gwirioneddol a phosibl lle bo raid. Wrth adolygu achosion, roedd y staff yn canolbwyntio ar ffactorau amrywiaeth y plentyn, yn ystyried eu cymhelliant a'u hymgysylltiad, ac yn cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr.

**Cryfderau**

- Roedd asesu ac adolygu ymataliad, diogelwch a lles y plentyn a'u risg o niweidio eraill yn feysydd o arferion cryf.
- Roedd yr asesiadau'n dangos tystiolaeth o ddadansoddiad digonol o droseddu, canolbwyntio ar gryfderau'r plentyn a deall eu lefel o aeddfedrwydd.
- Roedd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau'n arbennig o effeithiol mewn perthynas ag ymataliad y plentyn ac roedd yn rhoi ystyriaeth i'w cryfderau a'u haeddfedrwydd.
- Roedd dosbarthiad y rheolwyr achos o risg yn rhesymol.
- Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn rhoi ystyriaeth i amrywiaeth y plentyn, wedi ei adeiladu ar eu cryfderau ac yn gymesur â'r datrysiad.

- Roedd asiantaethau eraill yn cymryd rhan yn y gwaith o gadw'r plentyn yn ddiogel.
- Roedd rheolwyr achos yn ystyried dymuniadau ac anghenion y dioddefwr, a'r risg i ddioddefwyr gwirioneddol a phosibl lle bo'n berthnasol.
- Roedd y staff yn annog ymgysylltiad drwy gynnal perthynas â'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr.
- Wrth adolygu achosion, roedd staff yn canolbwyntio ar ffactorau amrywiaeth y plentyn, yn ystyried eu cymhelliant a'u hymgysyltlad, ac yn cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr.

**Meysydd i'w gwella**

- Nid oedd rheolwyr achos yn dadansoddi'r rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol yn ddigonol i hyrwyddo diogelwch a lles y plant.
- Roedd y cynllunio wrth gefn yn wan mewn perthynas â'r pryderon cynyddol amlwg ynghylch diogelwch a lles plant, a'u risg o niwed i eraill.
- Nid oedd y cynllunio ar gyfer diogelwch a llesiant plant yn ddigonol.
- Roedd diffyg cynllunio i reoli risg plant o achosi niwed i eraill a sicrhau cydbwysedd rhwng y rheolaethau mewnol ac allanol i ymdrin â'r risg.
- Roedd ansawdd y gwaith i ddarparu ymyraethau wedi ei effeithio gan or-ddibyniaeth ar ffactorau ymataliad eraill a diffyg cynllunio wrth gefn os byddai unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r plentyn.

# 3. Datrysiadau y tu allan i'r llys

Aethom ati i archwilio 12 achos dan reolaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid oedd wedi derbyn datrysiad y tu allan i'r llys. Dyma oedden nhw: un rhybudd amodol ieuenctid, dau rybudd ieuenctid a naw datrysiad cymunedol. Buom yn cyfweld y rheolwyr achos ymhob un o'r 12 achos.

Aethom ati i archwilio ansawdd y gwaith o asesu, cynllunio a gweithredu a darparu gwasanaethau. Arolygwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i ymdrin ag ymataliad, gweithio i gadw'r plentyn yn ddiogel a gweithio i gadw pobl eraill yn ddiogel. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir i bob ffactor fod yn uwch na throthwy penodol i bob agwedd o'r oruchwyliaeth er mwyn derbyn gradd foddhaol.

Gwnaethom arolygiad hefyd o ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd yn ei lle ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau.

Y Ganolfan yw'r panel gwneud penderfyniadau ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Aelodau'r Ganolfan yw rhingyll yr heddlu, panel y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a chydlynydd gwirfoddol, a chynrychiolydd gwirfoddol o'r gymuned. Yn rhan o hunanasesiad sicrhau ansawdd cynhwysfawr Pen-y-Bont ar Ogwr, cydnabu'r gwasanaeth bod angen i'r Ganolfan fod yn fwy ystyriol o blant a bod ag agwedd
wedi ei hysbysu gan drawma. Pan sefydlwyd y Ganolfan yn wreiddiol, roedd y bartneriaeth yn ei hystyried yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, ac felly mae'n dal i weithio mewn ffordd debyg i banelau gorchymyn cyfeirio a lleoliadau llys. Nid yw'n banel amlasiantaeth, ac ar y cam hwn nid yw plant yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol a gellid eu gwyro i ffwrdd. Ond, nid yw'r panel wedi ei sefydlu i gydnabod hynny ar hyn o bryd, ac, i fod yn effeithiol iawn, mae angen iddo gynnwys yr asiantaethau hynny sy'n canolbwyntio ar les a diogelwch plant yn ogystal â'r rheiny sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Cwblheir asesiad AssetPlus i bob plentyn, sy'n cynnwys dadansoddiad o anghenion y plentyn; ond, nid yw'r Ganolfan yn gweld yr asesiad hwn, yn hytrach mae'n derbyn adroddiad cryno. Nid yw'r Ganolfan yn un amlasiantaeth, ac nid yw'n derbyn yr holl wybodaeth asesu sy'n berthnasol i blant a'u teuluoedd yn gyson. Mae hyn yn ei wneud yn anoddach i sicrhau bod plant yn cael eu gwyro tuag at y gwasanaethau gofal a chymorth mwyaf priodol a bod eu hanghenion amrywiaeth yn cael eu cydnabod.

Yn gyffredinol, roedd asesiad yn faes ymarfer da ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, ac roedd y dadansoddiad o risg plant o niwed yn arbennig o gryf. Canfuwyd risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn a chawsent eu dadansoddi'n briodol, ac roedd rheolwyr achos yn rhoi ystyriaeth i anghenion a dymuniadau'r dioddefwr. Cafodd y risg o niwed i eraill ei nodi a'i ddadansoddi'n glir a defnyddiodd y rheolwyr achos ffynonellau o wybodaeth oedd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, i hysbysu eu beirniadaeth eu hunain.

Roedd cynllunio i gefnogi ymataliad plentyn yn faes ymarfer cryf. Roedd tystiolaeth yn yr achosion a arolygwyd bod staff yn canolbwyntio ar, ac yn deall, pwysigrwydd diwallu anghenion plant mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Un enghraifft o hyn oedd plentyn a fynychodd 'STEER the Enterprise Academy, a aeth o beidio mynychu'r ysgol o gwbl i ymddiddori yn y ddarpariaeth hon ac a ddywedodd wrth eu rheolwr achos y bydden nhw'n mynd yn llawn amser os cânt y cyfle. Roedd rheolwyr achosion yn ystyried cryfderau'r plantyn a'u lefel aeddfedrwydd, ac yn creu cynlluniau mewn cydweithrediad â phlant a'u teuluoedd.

Roedd cynllunio ar gyfer diogelwch a lles plentyn yn faes ymarfer gwael, fodd bynnag, ac roedd tystiolaeth yn dangos diffyg o ran adnabod y plant a allai fod dan risg o gamfanteisio a chynllunio ar eu cyfer nhw. Roedd y cynllunio wrth gefn gwael ar gyfer diogelwch a lles plant, a'u risg o niwed i eraill, wedi cyfrannu hefyd at y ffaith bod y maes ymarfer hwn wedi ei farnu'n annigonol.

Er bod rhywfaint o dystiolaeth dda o waith amlasiantaeth i ddarparu gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant a'r ddarpariaeth camddefnyddio sylweddau, nid oedd staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn rhoi digon o ystyriaeth i ddiogelwch a lles plant wrth ddarparu gwasanaethau. Roedd enghreifftiau lle nad oedd gwaith yn cael ei wneud mewn ffordd amserol a lle gallai ymyriadau gael eu darparu'n fwy priodol gan asiantaethau eraill, yn hytrach na chynnwys y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

Canfu'r arolwg nad oedd anghenion iechyd plant wedi eu hamlygu'n gyson, a chafodd hyn effaith negyddol ar ansawdd y cynllunio a darpariaeth y gwasaethau sy'n ymwneud â dogelwch a lles plant. Roedd y diffyg darpariaeth iechyd arbenigol i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn golygu nad oedd plant yn derbyn y gwasanaethau oedd yn ofynnol i ateb eu hanghenion iechyd penodol.

**Cryfderau**

- Roedd asesu risg plentyn o niwed yn faes ymarfer cryf.
- Roedd rheolwyr achosion yn defnyddio gwybodaeth o asiantaethau eraill i helpu i hysbysu eu beirniadaeth eu hunain hefyd.
- Wrth wneud asesiadau, roedd rheolwyr achos yn ystyried cryfderau'r plentyn a'u lefel o aeddfedrwydd.
- Roedd cynllunio i gefnogi ymataliad plant yn faes ymarfer cryf.
- Roedd staff yn deall pwysigrwydd diwallu anghenion plant mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
- Roedd rheolwyr achos wedi cynnwys plant a'u rheini neu ofalwyr yn y broses gynllunio.
- Roedd tystiolaeth o waith amlasiantaeth, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant a'r ddarpariaeth camddefnyddio sylweddau.
- Rhoddodd rheolwyr achos ystyriaeth i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr.

**Meysydd i'w gwella**

- Nid yw'r Ganolfan yn amlasiantaeth, ac nid yw'n derbyn yr holl wybodaeth asesu sy'n berthnasol i blant a'u teuluoedd yn gyson.
- Nid oedd y rheolwyr achos yn adnabod plant dan risg o gamfanteisio bob tro, nac yn rhoi cynlluniau yn eu lle i reoli'r risg hwn.
- Roedd y cynllunio wrth gefn i reoli diogelwch a lles plant, a'u risg o niweidio eraill, yn wael.
- Nid oedd anghenion iechyd plant wedi eu hadnabod yn gyson, a chafodd hyn effaith negyddol ar ansawdd y cynllunio a'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'u diogelwch a'u lles.

- Gallai rhai ymyriadau gael eu darparu'n fwy priodol gan asiantaethau eraill, megis gofal cymdeithasol plant, yn hytrach na chynnwys y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

Bydd gweithio gyda phlant sy'n derbyn datrysiadau y tu allan i'r llys yn fwy effeithiol os yw wedi ei dargedu, ei gynllunio a'i weithredu'n fwy effeithiol. Yn ein harolygiadau, rydym yn edrych ar sampl o achosion. Yn yr achosion hynny, rydym yn arolygu yn erbyn pedwar safon.

### 3.1. Asesiad

| Mae'r asesiad wedi ei hysbysu'n dda, yn ddadansoddol ac wedi ei bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'u rhieini neu ofalwyr yn weithredol. | Da |
|---|---|

Mae ein gradd[15] ar gyfer yr asesiad wedi ei seilio ar y cwestiynau allweddol a ganlyn:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn? | **67%** |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | 75% |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 83% |

**A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?**

Roedd yr asesiadau'n dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad plentyn Yn y mwyafrif o achosion, roedd dadansoddiad digonol o ymddygiad troseddol ac roedd yr asesiadau'n ystyried lefelau'r plentyn o aeddfedrwydd a chymhelliant i newid. Ymhob achos ond un, roedd y staff yn ystyried amgylchiadau personol y plentyn ac yn ystyried eu cryfderau a'u ffactorau amddiffynnol. Roedden nhw wedi cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn yr asesiad ac wedi cymryd eu barn i ystyraeth.

Yn y mwyafrif o achosion, roedd dadansoddiad priodol o anghenion amrywiaeth y plentyn, ac roedd y rheolwr achosion wedi defnyddio gwybodaeth gan asiantaethau erall i hysbysu eu hasesiad. Rhoddwyd ystyriaeth i anghenion a dymuniadau'r dioddefwr ymhob un o'r achosion perthnasol.

Y ffactorau mewn datrysiadau y tu allan i'r llys sy'n ymwneud fwyaf â throseddu plentyn yw trefniadau byw, camddefnyddio sylweddau, dysgu ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, hunan-hunaniaeth a gwydnwch; ac mewn wyth o'r 12 achos a arolygwyd gennym, roedd yr asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn a chefnogi ymataliad.

[15] Mae'r radd ar gyfer y safon wedi ei yrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, sy'n cael ei nodi mewn band sgorau, ac sydd wedi ei ddangos mewn print trwm yn y tabl. Gwelwch Atodiad 2 i gael esboniad manylach.

**A yw asesiadyn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?**

Roedd yr asesiadau'n ddigonol wrth ddadansoddi sut i gadw plant yn ddogel. Yn y mwyafrif o achosion, roedd y rheolwr achos wedi nodi a dadansoddi'r risg i ddiogelwch a lles y plentyn yn briodol. Roedd yr asesiad yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth, yn cynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol menw wyth allan o'r 12 achos a arolygwyd.

Roedd arolygwyr yn barnu bod asesiad y rheolwr achos o'r lefel o ddiogelwch a lles yn rhesymol ymhob achos. Yn gyffredinol, roedd yr asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel mewn tri chwarter o'r achosion a arolygwyd.

Nododd un arolygydd:

> *"Mae'r asesiad yn asesu'n gywir bod lefel diogelwch a lles y plentyn yn uchel. Mae'r plentyn wedi profi llawer o drawma wrth dyfu ac mae gan y rheolwr achos ddealllwriaeth gref am yr hyn sy'n effeithio ar ymddygiad y plentyn a pham. Mae gwaith parhaus i gynllunio'r diogelu plant ac mae hyn yn helpu i ganfod ac archwilio'r ffactorau sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles y plentyn."*

**A yw asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Roedd yr asesiad o'r risg y byddai plentyn yn niweidio eraill yn faes ymarfer cryf. Roedd y mwyafrif o'r achosion yn nodi'r risg o niwed i eraill yn glir ac yn dadansoddi'r risg hwnnw, gan gynnwys pwy oedd dan risg a natur y risg. Roedd y rheolwr achos wedi defnyddio ffynonellau o wybodaeth, yn cynnwys asesiadau eraill, i hysbysu eu beirniadaeth eu hunain. Roedd yr arolygwyr yn barnu bod asesiad y rheolwr achos o'r lefel o risg o niwed difrifol i eraill yn rhesymol ymhob achos ond un ac, yn gyffredinol, roedd yr asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel mewn 10 allan o'r 12 achos a arolygwyd.

| **3.2. Cynllunio** | |
|---|---|
| Mae'r cynllunio wedi ei hysbysu'n dda, yn ddadansoddol ac wedi ei bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'u rheini neu ofalwyr yn weithredol. | Angen gwella |

Mae ein gradd [16] am gynllunio wedi ei seilio ar y cwestiynau allweddol dilynol:

| | **% 'Ydy'** |
|---|---|
| A yw'r cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn? | 83% |
| A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | **58%** |
| A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | 75% |

**A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?**

[16] Mae'r radd ar gyfer y safon wedi ei yrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, sy'n cael ei nodi mewn band sgorau, ac sydd wedi ei ddangos mewn print trwm yn y tabl. Gwelwch Atodiad 2 i gael esboniad manylach.

Roedd cynllunio i gefnogi ymataliad plentyn yn faes ymarfer cryf. Ym mhob achos bron iawn, roedd y staff yn cynllunio'r gwasanaethau oedd yn fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan dalu sylw i amserlenni a dilyniant priodol, ac yn ystyried amgylchiadau personol a chyd-destun cymdeithasol y plentyn. Yn yr un modd, wrth gynllunio ar gyfer ymataliad plentyn, roedd rheolwyr achos yn ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn, yn ogystal â'u lefel o aeddfedrwydd a chymhelliant i newid.

Yn y mwyafrif o achosion, roedd rheolwyr achos wedi ystyried problemau amrywiaeth y plentyn ac wedi ystyried cyfleoedd i'r plentyn integreiddio i'r gymuned a manteisio ar wasanaethau prif ffrwd ar ôl cwblhau eu datrysiad y tu allan i'r llys.

Ymhob achos ond un, roedd y staff wedi cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn y broses gynllunio, ac yn y mwyafrif o achosion roedd anghenion a dymuniadau'r dioddefwr wedi derbyn ystyriaeth.

Roedd y cynllunio'n gymesur i'r math o ddatrysiad, oedd yn golygu y gallai ymyraethau gael eu cwblhau o fewn yr amseriadau ymhob achos ond un.

Yn gyffredinol, roedd cynllunio'n cefnogi ymataliad y plentyn yn ddigonol mewn 10 o'r 12 achos a arolygwyd.

### A yw cynllunio'n canolbwytio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

Roedd cynllunio oedd yn canolbwyntio ar gadw plant yn ddiogel yn faes ymarfer gwanach. Yn y mwyafrif o achosion, roedd cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, ond mewn pump o'r 11 achos perthnasol, roedd gwybodaeth gan asiantaethau eraill heb ei chynnwys i hysbysu'r cynllunio. Mewn mwy na hanner yr achosion, nid oedd trefniadau wrth gefn ar gyfer unrhyw newidiadau i'r lefel o risg yn amlwg ac, yn gyffredinol, roedd y cynllunio'n canolbwytio ar gadw'r plentyn yn ddiogel mewn dim ond saith o'r 12 achos a arolygwyd.

Dangoswyd hyn yn yr achos isod, lle nododd arolygydd:

> *"Mae'r plentyn yn agored i gamfanteisio ond nid oes cynlluniau i nodi sut i gadw'r plentyn yn ddiogel yn y cyswllt hwn. Mae'r gweithgareddau cynllunio gan asiantaethau eraill yn ymatebol yn hytrach na rhagweithiol ac nid yw cynlluniau'r asiantaehau wedi eu halinio."*

### A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

Roedd y cynllunio'n ddigonol wrth ystyried sut i gadw pobl eraill yn ddiogel. Roedd hi'n amlwg bod cynllunio'n digwydd ymron pob un o'r achosion perthnasol i hyrwyddo diogelwch pobl eraill drwy ymdrin â'r ffactorau sy'n ymwneud â'r risg o niwed i eraill, ac roedd y rheolwyr achos yn cynnwys asiantaethau eraill yn y mwyafrif o achoson. Fodd bynnag, dim ond mewn pump o'r 10 achos perthnasol y gwelwyd tystiolaeth o gynllunio ar gyfer trefniadau wrth gefn i reoli'r risgiau hynny a ganfuwyd.

Roedd cynllunio i ymdrin â phryderon oedd yn ymwneud â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl yn amlwg yn y mwyafrif o'r achosion perthnasol. Yn gyffredinol, roedd cynllunio oedd yn canolbwyntio ar gadw pobl yn ddiogel yn amlwg mewn naw allan o'r 12 achos a arolygwyd.

## 3.3. Gweithrediad a darpariaeth

| **Mae gwasanaethau wedi eu personoli a'u cydlynu oedd o safion uchel a chanddynt ffocws uchel yn cael eu darparu gan ymgysylltu a helpu'r plentyn.** | Angen gwella |
|---|---|

Mae ein sgôr[17] am weithrediad a darpariaeth wedi ei seilio ar y cwestiynau allweddol a ganlyn:

| | **% 'Ydy'** |
|---|---|
| A yw darpariaeth y gwasanaeth yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol? | 75% |
| A yw darpariaeth y gwasanaeth yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol? | **50%** |
| A yw darpariaeth y gwasanaeth yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol? | 75% |

### A yw darpariaeth y gwasanaethau'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?

Roedd darpariaeth y gwasanaethau'n cefnogi ymataliad y plentyn yn ddigonol. Ymhob achos bron, roedd ymyriadau i gefnogi ataliad wedi eu dilyniannu'n briodol a'u darparu mewn da bryd. Yn y mwyafrif o achosion, roedd y rheolwr achos wedi ystyried anghenion amrywiaeth y plentyn a'u cyd-destun cymdeithasol ehangach, ac wedi cynnwys ymyriadau a oedd yn gymesur â'r cyfleoedd datrysiad a hyrwyddo i intergeiddio i'r gymuned a defnyddio gwasanaethau prif ffrwd.

Ymhob achos, roedd staff wedi datblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r plentyn a'u rheini neu ofalwyr, ac wedi annog a galluogi'r plentyn i gydymffurfio â'r ymyriadau.

Yn gyffredinol, roedd cymorth i ymataliad y plentyn yn amlwg mewn naw allan o'r 12 achos a arolygwyd.

Dangoswyd hyn mewn un achos, lle nododd yr arolygydd:

> *"Mae tystioaleth gref o ymgysylltu da gan y rheolwr achos o ddechrau'r ymyriad. Mae'n galonogol darllen a chlywed am y ddealltwriaeth am y plentyn, yr ystyriaethau dilys a roddir i'w hoedran a lefel eu dealltwriaeth, ac am y defnydd a wneir o hyn i siapio'r ddarpariaeth. Y rheolwr achos sydd hefyd yn ystyried, herio ac eirioli am yr heriau gyda mynediad y plentyn i addysg a'u barn am addysg – a hynny'n effeithiol iawn hefyd, o ystyried sut mae'r plentyn yn ymgysylltu'n llawn erbyn hyn gyda'u darpariaeth addysg,"*

### A yw darpariaeth y gwasanaeth yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

Roedd darparu gwasanaethau oedd yn canolbwyntio ar gadw plant yn ddiogel yn faes ymarfer gwanach. Nid oedd yn amlwg bod diogelwch a lles y plentyn wedi ei hyrwyddo drwy ddarparu gwasanaeth yn hanner yr achosion a arolygwyd. Mewn pump o'r 12 achos, nid oedd y staff wedi cynnwys asiantaethau eraill yn y gwaith o gadw plant yn ddiogel. Yn

[17] Mae'r radd ar gyfer y safon wedi ei yrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, sy'n cael ei nodi mewn band sgorau, ac sydd wedi ei ddangos mewn print trwm yn y tabl. Gwelwch Atodiad 2 i gael esboniad manylach.

gyffredinol, roedd darpariaeth y gwasanaeth yn cefnogi diogelwch y plentyn mewn dim ond chwech o'r 12 achos a arolygwyd.

**A yw darpariaeth y gwasanaeth yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Roedd darpariaeth y gwasanaethau'n ddigonol wrth ystyried sut i gadw pobl eraill yn ddiogel. Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn rheoli ac yn lleihau'r risg o niwed yn y mwyafrif o'r achosion perthnasol, ac ymron pob achos roedd y staff wedi ystyried diogelu dioddefwyr posibl a gwirioneddol. Yn gyffredinol, roedd yr arolygwyr yn barnu bod diogelwch pobl eraill yn cael ei gefnogi'n ddigonol yn y mwyafrif o'r achosion a arolygwyd.

## 3.4. Darpariaeth a pholisi datrysiad y tu allan i'r llys

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaeth datrysiad y tu allan i'r llys yn bodoli sydd o ansawdd uchel, sydd wedi ei seilio ar dystiolaeth, sy'n hyrwyddo amrywiaeth ac sy'n cefnogi ymataliad cynaliadwy. | Angen gwella |

Wrth roi barn am ddarpariaeth a pholisi datrysiad y tu allan i'r llys, rydym yn rhoi ystyriaeth i'r atebion i'r tri chwestiwn a ganlyn:

**A oes polisi yn ei le ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r llys sy'n hyrwyddo amrywiaeth briodol ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy?**

Mae proses datrysiad y tu allan i'r llys i'r gael gan Heddlu De Cymru ar gyfer 2020-2023 ac mae siart llif datrysiad y tu allan i'r llys penodol gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-Bont ar Ogwr sy'n amlinellu arferion gweithredol.

Y Ganolfan yw'r panel gwneud penderfyniadau ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Aelodau'r Ganolfan yw rhingyll yr heddlu, panel y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a chydlynydd gwirfoddol, a chynrychiolydd gwirfoddol o'r gymuned. Mae'r polisi'n nodi proses uwchgyfeirio pan fydd anghytundebau am ganlyniadau, ac mae astudiaethau achos sy'n dangos tystiolaeth bod y broses hon yn cael ei defnyddio pan fo'i hangen.

Y Ganolfan yw'r panel gwneud penderfyniadau ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Mae'n cynnwys rhingyll heddlu, panel y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuectid a chydlynydd gwirfoddol, a chynrychiolydd gwirfoddol o'r gymuned. Yn rhan o hunanasesiad sicrhau ansawdd cynhwysfawr Pen-y-Bont ar Ogwr, cydnabu'r gwasanaeth bod angen i'r Ganolfan fod yn fwy ystyriol o blant a bod ag agwedd
wedi ei hysbysu gan drawma. Pan sefydlwyd y Ganolfan yn wreiddiol, roedd y bartneriaeth yn ei hystyried yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, ac felly mae'n dal i weithio mewn ffordd debyg i banelau gorchymyn cyfeirio a lleoliadau llys. Nid yw'n banel amlasiantaeth, ac ar y cam hwn nid yw plant yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol a gellid eu gwyro i ffwrdd. Ond, nid yw'r panel wedi ei sefydlu i gydnabod hynny ar hyn o bryd, ac, i fod yn effeithiol iawn, mae angen iddo gynnwys yr asiantaethau hynny sy'n canolbwyntio ar les a diogelwch plant yn ogystal â'r rheiny sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Cwblheir asesiad AssetPlus i bob plentyn, sy'n cynnwys dadansoddiad o anghenion y plentyn; ond, nid yw'r Ganolfan yn gweld yr asesiad hwn, yn hytrach mae'n derbyn adroddiad cryno. Nid yw'r Ganolfan yn un amlasiantaeth, ac nid yw'n derbyn yr holl wybodaeth asesu sy'n berthnasol i blant a'u teuluoedd yn gyson. Mae hyn yn ei wneud yn anoddach i sicrhau bod plant yn cael eu gwyro tuag at y gwasanaethau gofal a chymorth mwyaf priodol a bod eu hanghenion amrywiaeth yn cael eu cydnabod.

### A yw darpariaeth datrysiad y tu allan i'r llys yn hyrwyddo amrywiaeth ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy?

Ym Mhen-y-Bont ar Ogwr, gall yr heddlu gynnig datrysiadau cymunedol, naill ai gyda neu heb ymyriad cyfiawnder adferol, 'ar y stryd'. Hysbysir y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac mae'n trafod gyda'r heddlu a oes angen unrhyw atgyfeiriadau neu ymyriadau pellach.

Pan mae plentyn yn cael ei gyfeirio i'r gwasanaeth, mae swyddog heddlu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn adolygu'r digwyddiad ac yn ei anfon at staff gweinyddol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, fel eu bod yn gallu sgrinio cronfeydd data partneriaid eraill, yn cynnwys gofal cymdeithasol plant. Bydd ymarferydd arweiniol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn dyrannu'r achos ac yn pasio'r manylion ymlaen i swyddog y dioddefwr.

Bydd y panel Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a chydlynydd gwirfoddol yn siarad â'r plentyn a'u teulu ac yn sicrhau eu bod yn barod i fynd i'r Ganolfan. Dywedir wrth y plentyn a'u teulu y bydd rhywun yn gofyn iddyn nhw beth sydd wedi digwydd o'u safbwynt nhw; eu meddyliau a'u teimladau am y digwyddiad; a phwy sydd wedi cael eu niweidio a sut.

Bydd y rheolwr achos yn cwblhau asesiad AssetPlus ac yn cysylltu â swyddog y dioddefwr am safbwyntiau'r plentyn am unrhyw gyfranogaeth mewn proses adferol. Yna paratoir adroddiad i'r Ganolfan, sy'n crynhoi'r asesiad a gwblhawyd ond nid yw'n rhannu'r holl wybodaeth yn gyson sy'n berthnasol i'r plentyn a'u teulu. Sicrheir ansawdd yr adroddiad cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Ganolfan.

Nid oes nifer sefydlog o ddatrysiadau y tu allan i'r llys y gall plentyn ei dderbyn. Mae'r penderfyniad yn dibynnu ar y math o drosedd, derbyniad o gyfrifoleb neu gytundeb i ymyriad gwirfoddol, a beth mae'r Ganolfan yn credu fydd yn ateb anghenion y plentyn.

Mae'r holl ymyriadau sydd ar gael i blant ar orchmynion statudol ar gael i'r rheiny sy'n derbyn datrysiad y tu allan i'r llys. Disgwylir y bydd datrysiad y tu allan i'r llys yn cael ei gwblhau o fewn tri mis, er y gall datrysiad aros yn agored ar sail wirfoddol yn hirach os oes angen. Os nad yw plentyn yn cydymffurfio â'u datrysiad, gwneir ymdrechion i gefnogi ymgysylltiad.

### A yw polisi a darpariaeth datrysiad y tu allan i'r llys yn cael ei asesu a'i ddiweddaru'n rheolaidd i sichrau eu bod yn effeithiol ac yn cynnal aliniad gyda'r sail dystiolaeth?

Cafodd y polisi ei adolygu mewn partneriaeth â'r heddlu a chyflwynwyd proses adolygu achos i sicrhau bod strategaethau ymadael priodol yn eu lle i blant ar gyfer yr adeg pan fydd eu
datrysiad y tu allan i'r llys yn dod i ben.

Mae panel craffu'n cael ei sefydlu gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Ei ddiben yw gwneud adolygiadau o'r broses wneud penderfyniadau a'r rhesymeg ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys sy'n cael eu gwneud.

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cydnabod bod angen i'r broses ddatrysiad y tu allan i'r llys esblygu fel ei bod yn gallu gweithio'n fwy ataliol mewn ffordd amlasiantaethol. Mae angen i'r Ganolfan hefyd gydnabod pwysigrwydd defnyddio dull wedi ei hysbysu gan drawma wrth ymdrin â phlant a'u teuluoedd. Mae wedi bod yn edrych ar fodelau mewn ardaloedd eraill, i weld a oes modd brysbennu plant ar gam cynharach fel bod yr achosion yn mynd i'r Ganolfan dim ond pan fo raid.

# Atodiad 1: Methodoleg

### Safonau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Mae'r safonau a ddefnyddiwn i arolygu gwasanaethau troseddau ieuenctid wedi eu seilio ar fodelau a fframweithiau sefydledig, sydd wedi eu gwreiddio mewn tystiolaeth, dysgu a phrofiad. Mae'r safonau hyn wedi eu llunio i yrru gwelliannau yn ansawdd y gwaith gyda phlant sydd wedi troseddu.[18]

Mae'r fethodoleg arolygu wedi ei chrynhoi isod, a'i chysylltu at y tri parth yn ein fframwaith safonau. Roeddem yn canolbwyntio ar sicrhau tystiolaeth yn erbyn y safonau, cwestiynau allweddol a hyrwyddiadau yn ein fframwaith arolygu.

### Parth un: darpariaeth sefydliadol

Cyflwynodd y gwasanaeth troseddau ieuenctid dystiolaeth o flaen llaw a darparodd y prif weithredwr gyflwyniad yn ymdrin â'r meysydd a ganlyn:

- Sut mae trefniadau darparu sefydliadol yn yr ardal hon yn sicrhau bod gwaith eich Gwasanaeth Cyfiawnder Ieunctid mor effeithiol ag y gall fod, a bod cyfleoedd bywyd plant sydd wedi troseddu'n cael eu gwella?
- Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer gwella'r trefniadau hyn ymhellach?

Yn ystod prif gam y gwaith maes, gwnaethom 14 cyfweliad gyda rheolwyr achos, gan ofyn iddyn nhw am eu profiadau o hyfforddiant, datblygiad, goruchwyliaeth rheoli ac arweiniad. Cawsom amrywiol gyfarfodydd, oedd yn caniatáu i ni driongli tystiolaeth a gwybodaeth. Cawsom 13 cyfarfod i gyd, yn cynnwys rhai gyda rheolwyr, sefydliadau partner a staff. Cafodd y dystiolaeth a gasglwyd o dan y parth hwn ei beirniadu yn erbyn ein nodweddion sgorio cyhoeddedig.[19]

### Parth dau: datrysiadau llys

Cwblhawyd asesiadau achos gennym dros gyfnod o wythnos, gan archwilio ffeiliau achos a chyfweld rheolwyr achos. Yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid hwn, dim ond dau achos a gafwyd lle'r oedd plant wedi derbyn datrysiadau llys bump i 10 mis yn gynharach, gan alluogi i ni archwilio gwaith mewn perthynas ag asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu. Lle bo angen, cafwyd cyfweliadau hefyd gyda phobl eraill oedd yn chwarae rhan arwyddocaol yn yr achos.

### Parth tri: datrysiadau y tu allan i'r llys

Cwblhawyd asesiadau achos gennym dros gyfnod o wythnos, gan archwilio ffeiliau achos a chyfweld rheolwyr achos. Aethom ati i arolygu 12 datrysiad y tu allan i'r llys a roddwyd i blant tri i bum mis yn gynharach. Galluogodd hynny i ni archwilio gwaith mewn perthynas ag asesu, cynllunio a gweithredu a darparu. Lle bo angen, cafwyd cyfweliadau gyda phobl eraill oedd yn chwarae rhan arwyddocaol yn yr achos.

[18] Mae safonau Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar gael yma: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/.

# Atodiad 2: Data'r arolwg

Yn yr arolwg hwn, gwnaethom archwiliad manwl o sampl o ddau ddatrysiad llys a 12 datrysiad y tu allan i'r llys. Ymhob un o'r achosion hynny, rydym yn archwilio yn erbyn safonau sy'n ymwneud ag asesiad, cynllunio a gweithredu/darparu. Gyda datrysiadau llys, rydym hefyd yn edrych ar adolygu. I bob safon, mae arolygwyr yn ateb nifer o gwestiynau allweddol am wahanol agweddau o ansawdd, yn cynnwys a oedd digon o ddadansoddiad o'r ffactorau oedd yn ymwneud â throseddu; i ba raddau yr oedd troseddwyr ifanc yn cymryd rhan mewn asesu a chynllunio; ac a wnaethpwyd digon i asesu lefel y risg o niwed, a rheoli'r risg hwnnw.

I sgorio gradd 'Rhagorol' am yr adrannau ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys, mae'n rhaid i 80 y cant neu fwy o'r achosion a ddadansoddwn gael eu hasesu fel rhai digonol. Os ystyrir bod rhwng 65 y cant a 79 y cant yn ddigonol, yna'r radd a roddir yw 'Da' ac os ystyrir bod rhwng 50 y cant a 64 y cant yn ddigonol, yna rhoddir gradd o 'Angen gwella'. Yn olaf, os yw llai na 50y cant yn ddigonol, yna rydym yn rhoi gradd 'Annigonol' i hwn. Nid yw achosion ail sefydlu'n cael gradd ar wahân; mae'r data hwn at ddibenion darluniadol yn unig.

Mae'r radd ar gyfer pob safon wedi ei alinio â'r bandio ar lefel y cwestiwn allweddol lle ystyriwyd bod y gyfran isaf o achosion yn ddigonol, oherwydd roeddem yn credu fod pob cwestiwn allweddol yn rhan integrol o'r safon. Felly, os byddwn ni'n rhoi gradd 'Da' i dri chwestiwn ac 'Annigonol' i un, y radd gyffredinol ar gyfer y safon hwnnw yw 'Annigonol'.

| **Y bandio isaf**<br>(y gyfran o achosion y bernir eu bod ar lefel cwestiwn allweddol digonol) | **Gradd (safonol)** |
|---|---|
| Lleiafrif: <50% | Annigonol |
| Rhy ychydig: 50-64% | Angen gwella |
| Mwyafrif rhesymol: 65-79% | Da |
| Mwyafrif mawr: 80%+ | Rhagorol ☆ |

Defnyddir rheolau sgorio ychwanegol i gynhyrchu gradd gyffredinol y tîm troseddau ieuenctid. Mae pob un o'r 12 safon wedi eu sgorio ar raddfa 0–3 lle mae 'Annigonol' = 0; 'Angen gwella' = 1; 'Da' = 2; a 'Rhagorol' = 3. Mae adio'r sgorau hyn yn cynhyrchu sgôr cyfan sy'n amrywio o 0 i 36, sydd wedi ei fandio i gynhyrchu'r sgôr cyffredinol, fel a ganlyn:

- 0–6= Annigonol
- 7–18= Angen gwella
- 19–30= Da
- 31–36= Rhagorol.

Am nad oedd Parth 2 wedi ei sgorio oherwydd y nifer isel o achosion, cafodd y sgorio cyfan ei addasu ac roedd yn amrywio i 0 i 24, oedd wedi ei fandio i gynhyrchu'r radd gyffredinol fel a ganlyn:

- 0–4 = Annigonol
- 5–12 = Angen gwella
- 13–20 = Da
- 21–24 = Rhagorol.

Mae safonau Parth un a'r safon ansoddol ym mharth tri (safon 3.4) wedi eu beirniadu gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol yn bennaf.

**Data o achosion a arolygwyd:**[20]

| **2.1. Asesiad (datrysiadau llys)** | |
|---|---|
| **A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?** | |
| a) A oes digon o ddadansoddiad o ymddygiad troseddol, yn cynnwys agweddau'r plentyn tuag at eu troseddu a'u cymhellion dros droseddu? | 100% |
| b) A yw'r asesiad yn dadansoddi problemau amrywiaeth yn ddigonol? | 50% |
| c) A yw'r asesiad yn ystyried amgylchiadau personol, yn cynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn? | 100% |
| d) A yw'r asesiad yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei dal gan asiantaethau eraill? | 50% |
| e) A yw'r asesiad yn canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn? | 100% |
| f) A yw'r asesiad yn dadansoddi'r rhwystrau strwythurol allweddol sy'n wynebu'r plentyn? | 50% |
| g) A roddir digon o sylw i ddeall lefelau'r plentyn o aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant i newid, a'u tebygolrwydd o ymgysylltu â'r datrysiad llys? | 100% |
| h) A yw'r asesiad yn rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol? | 100% |
| i) A yw'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan yn ystyrlon yn eu hasesiad, ac a roddir ystyriaeth i'w sylwadau? | 50% |
| **A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?** | |
| a) A yw'r asesiad yn nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn? | 100% |
| b) A yw asesiad yn gwneud defnydd digonol o'r ffynonellau o wybodaeth sydd ar gael, yn cynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill pan fo'n briodol? | 100% |
| c) A yw asesiadau'n dadansoddi rheolaethau ac ymyriadau i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | 0% |

[20] Nid yw rhai cwestiynau'n berthnasol bob tro.

| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | |
|---|---|
| a) A yw'r asesiad yn nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risg o niwed i bobl eraill a achosir gan y plentyn, gan gynnwys nodi pwy sydd dan risg a natur y risg hwnnw? | 100% |
| c) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o'r ffynonellau o wybodaeth sydd ar gael, yn cynnwys ymddygiad ac euogfarnau o'r gorffennol, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol? | 50% |
| c) A yw'r asesiad yn dadansoddi rheolaethau ac ymyriadau i reoli a lleihau'r risg o niwed a ddangoswyd gan y plentyn? | 50% |

| **2.2. Cynllunio (datrysiadau llys)** | |
|---|---|
| **A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?** | |
| a) A yw'r cynllunio'n nodi'r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan dalu digon o sylw i'r amseriadau sydd ar gael a'r angen am ddilyniant? | 100% |
| b) A yw'r cynllunio'n ymdrin yn ddigonol â materion amrywiaeth? | 50% |
| c) A yw'r cynllunio'n rhoi digon o ystyriaeth i amgylchiadau personol y plentyn, yn cynnwys cyd-destun cymdeithasol a theuluol ehangach y plentyn? | 50% |
| d) A yw'r cynllunio'n rhoi ystyriaeth ddigonol i gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn, ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu'r rhain fel y bo'n angenrheidiol? | 100% |
| e) A yw'r cynllunio'n rhoi digon o ystyriaeth i lefelau aeddfedrwydd y plentyn, a'u gallu a'u cymhelliant i newid, ac yn ceisio datblygu'r rhain fel y bo'r angen? | 100% |
| f) A yw'r cynllunio'n rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr? | 50% |
| g) A yw'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan yn ystyrlon yn y cynllunio, ac a roddir ystyriaeth i'w sylwadau? | 50% |
| **A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?** | |
| a) A yw'r cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, gan ymdrin yn ddigonol â risgiau? | 50% |

| | |
|---|---|
| b) A yw'r cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol, ac a oes digon o aliniad â chynlluniau eraill (e.e. diogelwch plant neu gynlluniau gofal) sy'n ymwneud â'r plentyn? | 50% |
| c) A yw'r cynllunio'n nodi'r rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | 50% |
| d) A yw'r cynllunio'n nodi trefnaidau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli'r risgiau hynny sydd wedi eu nodi? | 0% |
| **A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | |
| a) A yw'r cynllunio'n hyrwyddo diogelwch pobl eraill, gan ymdrin yn ddigonol â'r ffactorau risg o niwed? | 100% |
| b) A yw'r cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol? | 50% |
| c) A yw'r cynllunio'n ymdrin ag unrhyw bryderon penodol a risgiau sy'n gysylltiedig â dioddefwyr posibl a gwirioneddol? | 50% |
| d) A yw'r cynllunio'n nodi'r rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch pobl eraill? | 0% |
| e) A yw'r cynllunio'n nodi'r trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli'r risgiau hynny sydd wedi eu nodi? | 0% |

| **2.3. Gweithrediad a darpariaeth (datrysiadau llys)** | |
|---|---|
| **A yw gweithrediad a darpariaeth y gwasanaethau'n cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?** | |
| a) Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi digon o sylw i ddilyniannu a'r amseriadau sydd ar gael? | 100% |
| b) A yw darpariaeth y gwasanaeth yn cyfrif am broblemau amrywiaeth y plentyn? | 100% |
| c) A yw daprariaeth y gwasanaeth yn adlewyrchu cyd-destun cymdeithasol a theuluol ehangach y plentyn, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr, neu bobl arwyddocaol eraill? | 50% |
| d) A yw darpariaeth y gwasanaeth yn adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol? | 100% |
| e) A roddir digon o ffocws ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr? | 100% |
| f) A yw darpariaeth y gwasanaeth yn hyrwyddo cyfleoedd i integreiddio yn y gymuned, gan gynnwys mynediad i wasanaethau yn dilyn goruchwyliaeth? | 50% |

| | |
|---|---|
| g) A roddir digon o sylw i annog a galluogi cydymffurfiad y plentyn â gwaith y tîm cyfiawnder ieuenctid? | 50% |
| h) A yw camau gorfodi'n cael eu cymryd pan fo'n briodol? | 50% |

| | |
|---|---|
| **A yw gweithrediad a darpariaeth gwasanaethau'n cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?** | |
| a) A yw darpariaeth y gwasanaeth yn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | 50% |
| b) A yw cyfranogaeth sefydliadau eraill i gadw'r plentyn yn ddiogel wedi ei gydlynu'n ddigon da? | 100% |
| **A yw gweithrediad a darpariaeth y gwasanaethau'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?** | |
| a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn ddigonol i reoli a lleihau'r risg o niwed? | 50% |
| b) A roddir digon o sylw i ddiogelu dioddefwyr gwirioneddol a phosibl? | 100% |
| c) A yw cyfranogaeth asiantaethau eraill mewn rheoli'r risg o niwed wedi ei gydlynu'n ddigon da? | 50% |

| | |
|---|---|
| **2. 4. Adolygu (datrysiadau llys)** | |
| **A yw'r adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?** | |
| a) A yw'r adolygiad yn adnabod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymataliad? | 50% |
| b) A yw'r adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu ar gryfderau'r plentyn a gwella ffactorau amddiffynnol? | 100% |
| c) A yw'r adolygu'n cynnwys dadansoddiad o ffactorau amrywiaeth, ac yn ymateb iddyn nhw? | 100% |
| d) A yw'r adolygu'n ystyried yr amgylchiadau personol, yn cynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol y plentyn? | 50% |
| d) A yw'r adolygu'n ystyried lefelau cymhelliant ac ymgysylltiad ac unrhyw rwystrau perthnasol? | 100% |
| e) A yw'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan yn ystyrlon yn y gwaith o adolygu eu cynnydd a'u hymgysylltiad, ac a roddir ystyriaeth i'w sylwadau? | 100% |

| | |
|---|---|
| f) A yw'r adolygu'n arwain at yr addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o waith i gefnogi ymataliad? | 50% |
| **A yw'r adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?** | |
| a) A yw'r adolygu'n nodi ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n ymwneud â diogelwch a lles? | 50% |
| b) A yw'r adolygu'n cael ei hysbysu gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n cymryd rhan mewn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | 50% |
| c) A yw'r adolygu'n arwain at yr addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o waith i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | 100% |
| **A yw'r adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | |
| a) A yw'r adolygu'n nodi ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â risg o niwed? | 50% |
| b) A yw'r adolygu'n cael ei hysbysu gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n cymryd rhan yn y broses o reoli'r risg o niwed? | 50% |
| c) A yw'r adolygu'n arwain at yr addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o waith i reoli a lleihau'r risg o niwed? | 50% |

| **3.1. Asesiad (datrysiadau y tu allan i'r llys)** | |
|---|---|
| **A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?** | |
| a) A oes digon o ddadansoddiad o ymddygiad troseddol, yn cynnwys cydnabyddiaeth y plentyn o'u cyfrifoldeb am eu troseddu, eu hagweddau tuag at y troseddu a'u cymhelliant i droseddu? | 83% |
| b) A yw'r asesiad yn dadansoddi problemau amrywiaeth yn ddigonol? | 75% |
| c) A yw'r asesiad yn ystyried amgylchiadau personol, yn cynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn? | 92% |
| d) A yw'r asesiad yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei dal gan asiantaethau eraill? | 75% |
| e) A yw'r asesiad yn canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn? | 92% |
| f) A yw'r asesiad yn dadansoddi'r rhwystrau strwythurol allweddol sy'n wynebu'r plentyn? | 42% |

| | |
|---|---|
| g) A roddir digon i sylw i ddeall lefelau'r plentyn o aeddfedrwydd, a'u gallu a'u cymhelliant i newid? | 83% |
| h) A yw'r asesiad yn rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol? | 92% |
| i) A yw'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan yn ystyrlon yn eu hasesiad, ac a roddir ystyriaeth i'w safbwyntiau? | 92% |
| **A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?** | |
| a) A yw'r asesiad yn nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn? | 75% |
| b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o'r ffynonellau o wybodaeth sydd ar gael, yn cynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol? | 67% |
| **A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?** | |
| a) A yw'r asesiad yn nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risg o niwed i bobl eraill a achosir gan y plentyn, gan gynnwys nodi pwy sydd dan risg a natur y risg hwnnw? | 67% |
| b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o'r ffynonellau o wybodaeth sydd ar gael, yn cynnwys asesiadau eraill sydd wedi eu cwblhau, a thystiolaeth arall o ymddygiad gan y plentyn? | 75% |

| **3.2. Cynllunio (datrysiadau y tu allan i'r llys)** | |
|---|---|
| **A yw'r cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn?** | |
| a) A yw'r cynllunio'n nodi'r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan dalu sylw digonol i'r amseriadau sydd ar gael a'r angen am ddilyniannu? | 83% |
| b) A yw'r cynllunio'n ymdrin yn ddigonol â materion amrywiaeth? | 75% |
| c) A yw'r cynllunio'n rhoi digon o ystyriaeth i amgylchiadau personol y plentyn, yn cynnwys cyd-destun cymdeithasol a theuluol ehangach y plentyn? | 83% |
| d) A yw'r cynllunio'n rhoi ystyriaeth ddigonol i gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn, ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu'r rhain fel y bo'n angenrheidiol? | 83% |
| e) A yw'r cynllunio'n rhoi ystyriaeth ddigonol i lefelau aeddfedrwydd y plentyn a'u gallu a'u cymhelliant i newid, ac yn ceisio datblygu'r rhain fel y bo'r angen? | 83% |

| | |
|---|---|
| f) A yw'r cynllunio'n rhoi ystyriaeth ddigonol i gyfleoedd ar gyfer integreiddio i'r gymuned, gan gynnwys mynediad i wasanaethau prif ffrwd yn dilyn cwblhau gwaith datrysiad y tu allan i'r llys? | 75% |
| g) A yw'r cynllunio'n rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr? | 75% |
| h) A yw'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon mewn cynllunio, ac a roddir ystyriaeth i'w sylwadau? | 92% |
| **A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?** | |
| a) A yw'r cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, gan ymdrin yn ddigonol â risgiau? | 75% |
| b) A yw'r cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol, ac a oes aliniad digonol gyda chynlluniau eraill (e.e. diogelu plant neu gynlluniau gofal) yn ymwneud â'r plentyn? | 50% |
| c) A yw'r cynllunio'n cynnwys trefniadau wrth gefn angenrheidiol ar gyfer y risgiau hynny sydd wedi cael eu nodi? | 45% |
| **A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | |
| a) A yw'r cynllunio'n hyrwyddo diogelwch pobl eraill, gan ymdrin yn ddigonol â'r ffactorau risg o niwed? | 75% |
| b) A yw'r cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol? | 67% |
| c) A yw'r cynllunio'n ymdrin ag unrhyw bryderon penodol a risgiau sy'n gysylltiedig â dioddefwyr posibl a gwirioneddol? | 67% |
| d) A yw'r cynllunio'n cynnwys trefniadau wrth gefn angenrheidiol ar gyfer y risgiau hynny sydd wedi cael eu canfod? | 42% |

| | |
|---|---|
| **3.3. Gweithrediad a darpariaeth (datrysiadau y tu allan i'r llys)** | |
| **A yw darpariaeth y gwasanaeth yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?** | |
| a) Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi digon o sylw i ddilyniannu a'r amseriadau sydd ar gael? | 83% |
| b) A yw darpariaeth y gwasanaeth yn cyfrif am broblemau amrywiaeth y plentyn? | 75% |

| | |
|---|---|
| c) A yw darpariaeth y gwasanaeth yn adlewyrchu cyd-destun cymdeithasol a theuluol ehangach y plentyn, yn cynnwys rhieni neu ofalwyr, neu bobl arwyddocaol eraill? | 75% |
| d) A roddir digon o ffocws ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr? | 100% |
| e) A roddir digon o sylw i annog a galluogi cydymffurfiad y plentyn gyda gwaith y tîm troseddau ieuenctid | 100% |
| f) A yw darpariaeth y gwasanaeth yn hyrwyddo cyfleoedd i integreiddio i'r gymuned, yn cynnwys mynediad at wasanaethau prif ffrwd? | 75% |
| **A yw darpariaeth y gwasanaeth yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?** | |
| a) A yw darpariaeth y gwasanaeth yn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | 50% |
| b) A yw cyfranogaeth asiantaethau eraill yn y gwaith o gadw'r plentyn yn ddiogel yn cael ei ddefnyddio a'i gydlynu'n ddigon da? | 58% |

| **A yw darpariaeth y gwasanaeth yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?** | |
|---|---|
| a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn ddigonol i reoli a lleihau'r risg o niwed? | 58% |
| b) A roddir digon o sylw i ddiogelu dioddefwyr gwirioneddol a phosibl? | 75% |